

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 365 - 60c
Gorffennaf 2018

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanyby, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Hanes Rali
C.Ff.I.
Ceredigion



Tudalen 13

Cadwyn
Cyfrinachau
arall



Tudalen 16

Ai Hari fydd
Pêl-droediwr
y dyfodol?



Tudalen 23

Bywyd prysur i'r aelodau



Brenhines Cffi Ceredigion am 2018-19 yw Elin Haf Jones, Clwb Llanwenog gyda'i dirprwyon Megan Jenkins, Clwb Llanddewi Brefi (chwith) a Lowri Pugh Davies, Clwb Bro'r Dderi. Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn yw Iwan Davies, Clwb Llanddewi Brefi gyda'i ddirprwyon, Dyfan Ellis Jones a Dyfrig Williams, y ddau o Clwb Llangwryfon.



Twm Ebbsworth, Brynamlwg, Llanwnnen enillodd Dlws yr Ifanc yng Ngŵyl Fawr Aberteifi dros benwythnos olaf mis Mehefin. Ysgrifennodd bortread o'i ddad-cu sef Mr J.T.B. Williams.



Aelodau C.Ff.I. Llanwenog – Sioned Davies, Nia Morgans, Hafwen Davies a Lois Jones a fu'n cystadlu ar lefel Cenedlaethol NFYFC yn Stafford ar ddydd Sadwrn, Mehefin 30ain yn cystadlu yng nghystadleuaeth C.Ff.I. Byw. Daeth llwyddiant mawr iddynt gan ddod yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Pencampwr Motocross Cymru



Profodd Sion Aled Evans o Gwmann lwyddiant ysgubol ar lefel cenedlaethol ym mis Mehefin wrth iddo gipio Pencampwriaeth Motocross Cymru dros benwythnos enfawr o rasio ym Mhenybont ger Llandrindod. Gyda thros 200 o gystadleuwyr yn bresennol a llawer wedi teithio ar draws Clawdd Offa i geisio am y bencampwriaeth, dyma oedd ras fwyaf'r flwyddyn.

Yn rasio yn erbyn nifer o reidwyr gorau Prydain yn y dosbarth 85cc, roedd angen i Sion godi safon a pherfformio ar lefel uwch os oedd am gipio'r tlws a'i gadw yma yng Nghymru am flwyddyn arall.

Yn ystod y deuddydd o gystadlu dangosodd Sion, sydd yn aelod o Glwb Beicio Modur Dyfed, ddycnwch, penderfyniad a dewrder ar y trac cyflym, technegol a mynyddig, gan ennill tair allan o'i bedair ras i gipio'r Bencampwriaeth am 2018.

Llongyfarchiadau mawr iddo.

Grannell Community Energy

CYFLE I CHI FOD YN GYFRANDDALIWR MEWN TYRBIN GWYNT CYMUNEDOL NEWYDD GER LLAMBED

Os ydych yn 16 oed neu'n hŷn, gallwch wneud cais am rhwng £100* a £100,000 mewn cyfranddaliadau allai ennill dychweliad blynyddol ar gyfartaledd o 5% dros 20 mlynedd (*gweler y telerau llawn ar y wefan).

I ddarganfod mwy yna lawr lwythwch eich copi eich hun o'r Ddogfen Cyfranddaliad, ewch i www.grannellcoop.org.uk neu e-bostiwch info@grannellcoop.org.uk neu ffoniwch 01743 835 243.

Dyddiad cau: 31 Gorffennaf 2018

Mae Egni Cymunedol Grannell yn Gymdeithas Budd-dal Cymunedol. Rhif Cofrestru: 7447

Llun: Ynni Sir Gar



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@EnfysHatcher](https://twitter.com/EnfysHatcher)
Mehefin 19

Cwrdd Plant ffab dydd
Sul. [@BedyddGogTeifi](https://twitter.com/BedyddGogTeifi)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Mehefin 16

#arytreniafonwen yn
[@VicHallLampeter](https://twitter.com/VicHallLampeter)
nawr gyda Bryn Fôn.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@lois_wms](https://twitter.com/lois_wms)
Mehefin 15

Ni'n barod i ffilmio!
[@nosonlawen](https://twitter.com/nosonlawen)
AdranacAelwydLlanbed

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@CFfICwmann](https://twitter.com/CFfICwmann)
Mehefin 10

Cneifio'r clwb in full
swing ar gae'r pentre
diolch i'n llywydd
[@Mair06858484](https://twitter.com/Mair06858484) am
drefnu!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@LampeterPolice](https://twitter.com/LampeterPolice)
Mehefin 5

SCCH Eleri Ysgol
[@DyffrynCledlyn](https://twitter.com/DyffrynCledlyn) gyda
plant Blwyddyn 1 a 2 a
Neris o
[@CSCeredigion](https://twitter.com/CSCeredigion)
#kerbcraft da iawn plant.
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)
Mehefin 2

Diwrnod hyfryd a
chystadlu da yn
[#RaliCeredigion18](https://twitter.com/RaliCeredigion18)
[@CFfIFelinfach](https://twitter.com/CFfIFelinfach)
heddiw.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Gorffennaf Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Medi Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan,
Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards, Lois Williams.

Dylunydd y mis Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyd Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Ymfudwyr ddoe

Yn ystod y mis aeth heibio, mae sawl un o ardal Clonc wedi bod yn dathlu dau ben-blwydd arbennig iawn. Er taw yn nyffryn Aeron, yn hytrach na dyffryn Teifi, y bu canolbwynt y dathliadau, mae'r hanesion yn werth eu hadrodd.

Dathlwyd yn gyntaf ymdrechion David Jones a Thomas Bevan i genhadu yn Madagascar. Aeth y ddau Gristion ifanc i ynys bell oddi ar arfordir dwyrain Affrica; gadael Cymru ar 9 Chwefror 1818 a chyrraedd eu cartref newydd ar 3 Gorffennaf. Lai na blwyddyn yn ddiweddarach serch hynny, roedd Thomas Bevan a'i wraig a'i blentyn wedi marw oherwydd malaria, yn ogystal â gwraig a phlentyn David Jones. Wn i ddim sut lwyddodd David Jones i gario mlaen â'r gwaith, ond mae'n rhaid nad oedd dewis ganddo, a bod ei ffydd a'i ddewrder wedi'i gynnal. Cymaint yw gwerthfawrogiad pobol Madagascar heddiw o hyd o'r gwaith a wnaethpwyd dau gan mlynedd yn ôl.

Yr ail ddathliad a gawsom oedd nodi dau ganmlwyddiant oddi ar i'r chwe theulu cyntaf adael canol Ceredigion am Ohio. Doedd pethe ddim yn rhwydd arny'n nhw chwaith. Nid crefydd wnaeth eu harwain nhw, ond tlodi'r cyfnod ym myd ffarmio. Doedden nhw ddim yn gweld opsiwn arall, mae'n rhaid - ac roedd angen tipyn o 'guts'. Gadael harbwr Aberaeron ar 1 Ebrill 1818, a chyrraedd tir America ar 1 Gorffennaf. Roedd trasiedi wedi taro'r rhain hefyd, gyda chroten fach 11 oed wedi marw ar y daith. Ond fe setlon nhw yn ardal Gallipolis, gan agor y llifddorau i gannoedd, os nad miloedd, o Gardis tebyg i ymuno â nhw. Ac fe welwyd yn y dathliadau nad yw'r disgynyddion wedi anghofio'u hanes na'u gwreiddiau. Mae'r ddolen gyswllt yn dynn, dynn.

A'r hyn a'm tarodd i oedd bod pobol America wedi cael rhwydd hynt i ddod i Gymru fach, dim ond dyddiau (os nad oriau) yn unig oddi ar i Arlywydd yr Unol Daleithiau rwygo teuluoedd yr ymfudwyr presennol. Sut groeso tybed fydder'r Cardis wedi'u cael petaen nhw wedi codi pac dau gan mlynedd yn ddiweddarach, a cheisio gwell byd dan law gadarn Mr Trump? Awn ni ddim ar hyd y trywydd hwnnw; yn hytrach, cofiwn gyda diolch am ein hanes.

Cloncen

Adolygiad o Lyfr

Agor Cloriau, John Phillips

Heb os, mae hunangofiannau Cymraeg yn denu darllenwyr – y chwilfrydedd hynny o gael mynd o dan groen, i ddysgu mwy am gymeriad ac am y bersonoliaeth tu ôl i'r wyneb. Mae hynt a helynt ym mywydau eraill yn cael eu datgelu gyda phob troad tudalen.

Yn sicr, dwi'n un o'r bobl rheiny, gan feddwl bod pobl a llwybr eu bywydau mor ddiddorol, yn enwedig cymeriadau ein milltir sgwâr. Mae cymryd seibiant i eistedd a darllen hunangofiant dda fel clywed stori yn cael ei hadrodd gydag arddeliad. Dyna'r union deimlad y ces wrth ddarllen Agor Cloriau - John Phillips yn eistedd wrth fy ochr yn rhannu hanesion dros baned a'r sgwrs yn nadreddu'n naturiol o un cyfnod i'r nesaf.

Mae'r disgrifiadau cynnar o'i fywyd yn cyfoethogi'r darllen, ac yn rhoi blas ar gyfnod mewn hanes nad yw'n bodoli heddiw. Bywyd bob dydd teulu o ardal diwydiannol y pyllau glo.


Dyma gofnodi hanesion sy'n ran annatod o hunaniaeth y Cymry. Aed a'r darlennydd trwy benodau bywyd, o'r dyddiau cynnar i'r digwyddiadau megis angladdau, troseddau (neu'r diffyg troseddau), Father Christmas, gemau a'r Rhyfel, a oedd oll yn rhan o fywyd y cyfnod.

Mynd ymlaen ar hyd llwybr Addysg wedyn, a'r profiad o fod yn fyfyrwr yn y Brifysgol Ger y Lli a chael dysg gan rai o fawron y byd Cymreig a'r byd Llenyddol – profiad alla i uniaethu i raddau gyda'm darlithwyr innau fel Mihangel Morgan, Dr Bleddyn Owen Huws a Dr Huw Meirion Edwards.

Wrth gwrs, prif elfen yr hunangofiant yn fy nhyb i yw'r cyfnod yn gweithio i Sir Aberteifi ac yna Cyngor Sir Dyfed, a'r cyfraniad amhrisiadwy y gwnaeth John Phillips i ddatblygiad addysg ac yn benodol i ddysg ddwyieithog. Er gwrthwynebiad chwyrn a milain o sawl cyfeiriad annisgwyl ar adegau, llwyddwyd i sicrhau lle teilwng a blaenllaw i'r Gymraeg yn ysgolion ein Siroedd.

Braf yw cael pytau o farddoniaeth gan John Phillips ei hun, ac eraill, sy'n rhoi tinc gosgeiddig i'r darllen. Yn aml, mae cerdd gwyno yn dweud cyfrolau.

Diolch am gyfrol sy'n cofnodi cerrig milltir nodedig, i'n gwneud ni i werthfawrogi'r hyn a gyflawnwyd dros genedlaethau o ddisgyblion a fu, yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol.



Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



GORFFENNAF

- 7 Diwrnod Hwyl ar Gae Chwarae Llanllwni am 1.00y.p. Trefnir gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r Ysgol, Yr Ysgol Feithrin a C.Ff.I Llanllwni. Carnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, barbeciw, stondinau a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 8 Te Prynhawn yng nghwmni Lleisiau Bro Eirwyn yn Neuadd Llanfihangel ar Arth am 3.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 15 Rasys Cledlyn - hwyl i'r teulu yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach rhwng 2.00 a 5.00 gyda'r elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Cledlyn.
- 21 Cneifio Llambod yn fferm Capeli, Llanbed i ddechrau am 8 y.b.
- 22 Trip Bedyddwyr Gogledd Teifi - dechrau am 10.00y.b.
- 27 BBQ yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant.
- 28 Ffair Fwyd Llanbed ar dir y brifysgol.

AWST

- 4 Carnifal Llanbed. Thema: 'Beth ydw i moyn bod ar ôl tyfu'.
- 10 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan ar gaeau Pontfaen.
- 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 18 Sioe Gorsgoch.
- 19 Pwyllgor R.A.B.I. Ceredigion yn cynnal Ras Hwyaid yng Nglanwern, Felinfach.
- 25-27 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan.
- 27 Sioe Llanfair Clydogau.
- 27 Sioe Flynyddol C.Ff.I. Llanllwni. Elw yn cael ei rannu rhwng Uned Gofal y Fron, Ysbyty Tywysog Phillip Llanelli ac Epilepsy Action.

MEDI

- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambod am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 8 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann a Thaith Tractorau.
- 22 Cyngerdd yng nghwmni Côr Bro Meirion yn Theatr Felinfach dan nawdd Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen. Tocynnau ar werth o'r theatr 01570 470697.
- 24 Cwrdd Diolchgarwch Noddfa am 7.00y.h.

HYDREF

- 3 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambod am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.
- 12, 19 a'r 20 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr.
- 27 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams 01558 650292.
- 31 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambod am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.

TACHWEDD

- 1 a 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.

RHAGFYR

- 5 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambod am 4.00y.p. Croeso cynnes i bawb.

2019

MAWRTH

- 2 Gorymdaith Gŵyl Dewi yn Llambod.

Gohebiaeth

Gwersyll yr Urdd
Llangrannog
Llandysul
SA44 6AE

Annwyl gyfeillion
Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at ddigwyddiad y bydd Urdd Gobaith Cymru yn ei gynnal yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fis Awst eleni.

Hiraethu am hafau hyfryd
Llangrannog

Ar nos Iau, 9fed o Awst am 5.30yp ym Mhabell y Gymdeithasau (Y Senedd), Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd bydd trafodaeth banel yn rhannu atgofion a straeon am hafau a dreuliodd yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog, boed hynny fel staff, swog neu breswylwr.

Rydym hefyd yn estyn gwahoddiad cynnes i holl ddarlennwyr y papur i ymuno yn y sgwrs drwy rannu eu straeon. Croeso i bawb ddod â lluniau ac atgofion a bydd posib i ni gofnodi'r rhain fel rhan o broses archifo'r Urdd.

Yn cadeirio fydd Angharad Mair gyda'r panel yn cynnwys Steffan Jenkins (cyn-gyfarwyddwr y gwrsyll), Ian Gwyn-Hughes a nifer o gyn-wersyllwyr, swogs, staff ac enwogion eraill.

Os hoffech gadarnhau eich presenoldeb gellir gwneud hynny drwy ebostio llangrannog@urdd.org

Fel y gwyddoch efallai, yn 2022 bydd yr Urdd yn datlu ein canmlwyddiant felly dyma gyfle i edrych yn ôl ac edrych ymlaen!

Diolch

Lowri Jones,

Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd
Llangrannog

Annwyl ddarlennwr,
Mae Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn datlu 70 mlwydd oed eleni. Hoffem glywed eich atgofion o'r adeiladau neu am eich ymweliadau â'r Amgueddfa dros y blynyddoedd.

Fuoch chi yn yr Amgueddfa yn y dyddiau cynnar? Ddaethoch chi i Sain Ffagan ar dripgol? Ydych chi'n gyn-aelod o staff?

Caiff yr Eisteddfod Genedlaethol ei chynnal yng Nghaerdydd fis Awst a braf byddai eich gweld yn Sain Ffagan. Dewch i rannu eich atgofion gyda ni.

Amgueddfa pobl Cymru yw Sain Ffagan, ac rydym eisieu clywed eich stori chi.

Gallwch hefyd rannu eich atgofion gyda ni ar y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio #CreuHanes neu cysylltwch â Elen Phillips, Curadur Hanes Cyfoes a Chymunedol elen.
phillips@amgueddfacymru.ac.uk

Cofion

Sioned Hughes, Ceidwad Hanes ac Archaeoleg, Amgueddfa Cymru

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered
Business

Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan? Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.

Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Llanwnnen

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Mehefin daeth y newyddion trist am farwolaeth John Jones, Cornicyll. Roedd wedi cyrraedd oedran teg iawn a chydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'i neiaint a'i nith yn eu colled.

Cellan

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Francis, Maesyderi a Lillian a Gareth a'r teulu, Hafod Gwilym ar ôl colli gŵr, tad a thad-cu annwyl, sef Gerwyn Jones, Maesyderi. Yn meddwl amdanoch yn yr amser trist yma.

Gwmsychpant

Cydymdeimlo

Gyda chwithdod mawr y clywsom yn ystod y mis am farwolaeth Roy Rees, Pantronnen yn ysbyty Glangwili. Person y wlad oedd Roy ac roedd bob amser â gwên fawr ar ei wyneb ac yn gefnogol i bopeth yn yr ardal. Bu ei angladd yn breifat yn Amlogfa Aberystwyth. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r bechgyn, Eifion ac Emyr a'u teuluoedd, Lyn ei frawd a Nan ei chwaer, ynghyd â Mari yn eu colled erchyll.

Babis newydd

Llongyfarchiadau i Lyn Griffiths, Penlanfawr ar ddyfodiad ŵyr bach newydd – mab i Geraint a'i briod yn Llansawel.

Llongyfarchiadau hefyd i Euros a Janet Davies, Llys y Wawr ar ddyfodiad wyres fach newydd – merch fach i Carys a Jason yn Llanon.

Pentrebach

Diolch

Dymuna Robert, Michael a Heather ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ar adeg marwolaeth eu tad Dan Jones, Central Garage gynt. Hefyd diolch i bawb a fu yn ymweld ag ef yng Nghartref Alltymynydd.



Cefn Hafod
Gorsgoch
Cyri bob nos Wener,
£6 y pen
Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos
Nos Lun— Nos Sadwrn
Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

Swyddogion newydd Ysgol Bro Pedr

Yn ddiweddar, cafodd tîm newydd o Brif Swyddogion eu hapwyntio yn Ysgol Bro Pedr ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2018-2019. Ar ôl llenwi ffurflen gais, etholiad ymysg disgyblion blwyddyn 12 ac athrawon a chyfweliad gyda'r panel apwyntio, penderfynwyd apwyntio Siencyn Jones a Max Parry yn Brif Fechgyn, a'u dirprwyon; Cerys Pollock, Cari Jones, Mari Lewis, Osian Jones a Cyffin Thomas. Mae'r tîm swyddogion yn cyfrannu llawer at fywyd yr ysgol trwy gydol y flwyddyn, gan gynrychioli'r ysgol mewn sawl digwyddiad mewnol ac allanol.

Aelod brwdfrydig o'r chweched yw Siencyn Jones, o Ffair Rhos. Mwynha Siencyn chwarae pêl-droed ac mae'n chwarae i Sêr Dewi a thîm Bow Street. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Siencyn wedi bod yn aelod o Gyngor Ieuenctid Ceredigion gan gyfrannu'n fawr at drafodaethau a gweithgareddau. Enillodd Siencyn y siaradwr gorau yng nghystadlweddau Siarad Cyhoeddus y Rotari yn gynharach eleni.

Aelod gweithgar o'r chweched yw Max Parry o Lanllwni. Mae Max wedi cynrychioli ei flwyddyn ar gyngor yr ysgol sawl gwaith ac wedi cymryd rhan blaenllaw yn y cyfarfodydd ac helpu i drefnu gweithgareddau o fewn yr ysgol. Cynrychiola Max Gymru ar bwyllgor 'Youth Select' a bu hefyd yn cyd-weithio'n frwd gydag

aelodau eraill o dîm Dulas yn Eisteddfod yr Ysgol eleni fel un o'r is-gapteiniaid. Mwynha Max chwarae rygbi i Glwb Rygbi Llanbed a chymdeithasu gydag eraill.

Ymddiddora Cerys Pollock o Gwmsychpant ym myd celf a chrefft ac mae wedi ennill amryw o wobrau am ei gwaith gan gynnwys y 3ydd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Bu Cerys yn un o arweinwyr Clwb Cymraeg yr ysgol eleni, lle bu'n gweithio gydag eraill i hybu'r Gymraeg yn yr ysgol. Yn ogystal â'r Clwb Cymraeg, roedd Cerys yn un o is-gapteiniaid Dulas yn Eisteddfod yr Ysgol eleni. Yn ei hamser hamdden, mwynha Cerys chwarae hoci i Glwb Hoci Llanybydder.

Cari Jones o Gwmann, oedd capten Teifi yn Eisteddfod yr Ysgol eleni a chydweithiodd yn ddiwyd gydag aelodau eraill y tîm gan arwain Teifi i fuddugoliaeth ar ddiwedd y cystadlu. Mae Cari'n cyfrannu at fywyd yr ysgol trwy helpu gyda chlybiau a chymryd rhan mewn amryw o weithgareddau. Gweithia Cari'n rhan amser mewn caffi lleol ac mae'n mwynhau cymdeithasu, cwrdd â phobl newydd a datblygu sgiliau.

Aelod talentog o'r chweched yw Mari Lewis o Gwmann, sef capten Creuddyn yn Eisteddfod yr Ysgol eleni yn ogystal ag un o arweinwyr y Clwb Cymraeg yn yr ysgol. Mae Mari yn hoff o gerddoriaeth ac wedi sefyll gradd 5 telyn a gradd 3 piano

ac yn mwynhau dawnio yn ysgol ddawns Sally Saunders. Yn ogystal â chyfrannu'n ddiddarod at fywyd yr ysgol, mwynha Mari helpu gyda'r busnes teuluol, W. D. Lewis.

Mae Osian Jones o Gwmann yn aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Cwmann ac yn mwynhau cymdeithasu. Osian oedd is-gapten Teifi ac un o lysgenhadon yr Urdd yn yr ysgol eleni a buodd yn hyrwyddo mudiad yr Urdd yn yr ysgol. Mwynha Osian chwaraeon yn fawr wrth iddo chwarae rygbi i Glwb Rygbi Llanbed ac mae hefyd yn chwarae i dîm Sir Ceredigion, yn ogystal a chwarae criced i dîm Llanbed.

Rhagora Cyffin Thomas o Lanfair Clydogau ym myd sgïo ac mae'n un o gynrychiolwyr Chwaraeon Eira Cymru. Mae hefyd yn gweithio i'r Urdd fel hyfforddwr sgïo. Chwaraea Cyffin griced i dîm Aberaeron yn ei amser hamdden. Yn ogystal â'i ddiddordeb mewn chwaraeon, mae Cyffin yn aelod o Gyngor yr ysgol a Chyngor Ieuenctid Ceredigion ac wedi bod ar gwrs ar gyfer Arweinwyr Ieuenctid y Rotari.

Yn union fel arwyddair yr ysgol, 'A fo ben bid bont' - bydd y saith yn bont i ddisgyblion yr ysgol ac yn arweinwyr cadarn. Llongyfarchiadau mawr i'r saith ohonynt, a dymuniadau gorau iddynt ar gyfer blwyddyn prysur a dymunol ym Mro Pedr!

Llanybydder

Diolch

Dymuna Heather a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y rhoddion er cof am ei hannwyl chwaer Mrs Kathleen Edwards, 3 Maes-yr-awel, Tregaron tuag at Eglwys Sant Caron, Tregaron. Mae'r swm o £1,000 wedi cael ei drosglwyddo yn ystod bore weddi ar Sul y 23ain o Fehefin i'r Parchedig Philip Wyn Davies. Diolch yn fawr.

Dymuna Gill, 44 Heol-y-Gaer, gyda'i theulu, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd drwy air ar y ffôn, blodau, cardiau a nwyddau, pan gollwyd gŵr, tad, tad yng nghyfraith parchus, tad-cu a hen dad-cu bach cariadus sef Vivian neu Vivian Post fel y galwyd ef yn lleol.

Bregus fu ei iechyd dros y misoedd diwethaf ond fe gollwyd yn sydyn ar fore Sadwrn, 9fed o Fehefin. Bu'r angladd yn un preifat yng Nghapel Aberduar ar ddydd Mawrth, 19eg o Fehefin yng ngofal y Parchedig Jill Tomos a'r Parchedig Eirian Lewis.

Derbyniwyd rhoddion er cof os dymunir tuag at Nyrsys Macmillan neu gangen lleol y cancr drwy law Gwilym C Price, ei fab a'r merched, Stryd y Coleg, Llambled.

Pwyllgor Pentref Llanybydder



Côr Lleisiau'r Werin

Ar ôl tipyn o ganu mewn amrywiol ardaloedd yn ystod y gwanwyn, cawsom ein cinio blynyddol ar noson braf yng nghanol Mehefin. Y Belle yn Lanllwni oedd y lleoliad eleni ac fe gafodd tua phump ar hugain ohonom amser pleserus iawn. Roedd y bwyd yn flasus a phawb wedi mwynhau'r arlwy. Yn ystod y noson, cyflwynodd Edith rodd fechan i Elonwy a Ceiwen fel gwerthfawrogiad o'u gwaith diflino yn ystod y flwyddyn. Mae'n siŵr fod rhai ohonom yn siarad gormod yn ystod yr ymarferion ond mae ganddynt eu ffordd unigryw o'n cadw o dan reolaeth! Diolch i chi am eich ymroddiad a'ch amynedd ac edrychwn ymlaen at fwy o ganu a chymdeithasu yn y dyfodol.

Yn y llun gwelir aelodau o Bwyllgor Pentref Llanybydder yn cyflwyno sicc o £473 i Mrs Meinir Davies ac aelodau o Gyngor Ysgol Llanybydder. Casglwyd yr arian yn ei diwrnod 'It's a Knockout' eleni.

Enillwyr Misol Clwb 125

Neuadd Sant Iago Mehefin 2018

1. Gavin a Rebecca Evans, Anwyllfan, Llanllwni, 73. 2. Rhian Jones, Hafod-Cottage, Cwmann, 29. 3. Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 123. 4. Dafydd Lloyd, Pen-Y-Bont, Pumsaint, 96. 5. Ceinwen Evans, Fferm Felin-Fach, Cwmann, 28. 6. Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 89. 7. Andrea Lewis, Ty-Gwyn, Llangybi, 148.

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i Karen a Paul, Preswylfa ar ddathlu pen-blwydd priodas Arian. Gobeithio i chi gael amser da.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Carys, Dylan a'r teulu, Tŷ Cerrig a'r holl gysylltiadau teuluol eraill ar farwolaeth ei thad-cu, Mr Aeron Davies, o Felinfach.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Elan a Beca ar ennill y ddeuawd Cerdd Dant Bl. 10 ac o dan 19 oed.

Diolch

Dymuna Eirios, Gareth a'u teuluoedd ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu profedigaeth o golli mam, mam-gu a hen fam-gu hoffus iawn, Ceinwen Russell, Coedeiddig Fawr yn ddiweddar.

Diolch diffuant iawn i bawb am bob arwydd o garedigrwydd, galwadau, nwyddau, blodau hyfryd a'r cardiau lu. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Enillwyr Misol o'r Clwb 225

Pwyllgor Pentref Cwmann
Mis Mehefin

1. Eric Williams, Y Fedw, Cwmann, 10. 2. Graham Evans, Fferm Felinfach, Cwmann, 146. 3. Dafydd Lewis, Pantmeinog, Cwmann, 194. 4. Jeff Douch, 1, Heol-Y-Fedw, Cwmann, 62. 5. Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann, 133. 6. Joan Davies, 23, Cwrt-Deri, Cwmann, 17. 7. Ray Harries, Castle-View, Llanllwni, 203.

Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawodd y llywydd Elma bawb i gyfarfod mis Mehefin ar nos Lun, Mehefin 4ydd. Diolchodd i bawb am gyfrannu a helpu ar ddiwrnod y Carnifal. Gwnaed elw sylweddol. Aed trwy'r llythyr misol a llongyfarchwyd Glesni a Brenda am ennill ar y Clwb 200. Cyfarfod Gorffennaf ymweld â Ffatri Corgi, Glanaman cwrdd yn Heol Hathren am 12.30y.p. Aeth Elma ymlaen i groesawu ein gwestai sef Eric Williams a Jen Cairns a oedd wedi

llanw'r bwlch yn absenoldeb y gŵr gwadd. Cawsom ganddynt hanes plwyf Pencarreg a Chwmann rhyw tri chwarter canrif yn ôl. Eric yn rhoi'r hanes a Jen yn dangos y sleidiau. Dechreuwyd trwy ddweud fod trên yn dod o Gaerfyrddin i Lamberd ac yn aros ym Mhencarreg. Roedd pobl yn byw ar y 'Gaer' ger Gellidewi Uchaf. Pedwar tafarn yng Nghwmann – Lock and Key, Plasnewydd, Ram a Thafarn Cwmann, ond erbyn hyn dim ond Tafarn Cwmann sydd ar agor. Diolchwyd iddynt am noson ddiddorol gan Mary. Roedd y te yng ngofal Mary a Veronica. Enillwyd y raffl gan Eric Williams.

Ysgol Carreg Hirfaen

Dymunwn yn dda i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn cychwyn ar eu haddysg yn yr ysgol Uwchradd ym mis Medi sef Marged Jones, Cadi Evans, Cerys Rees, Llyr Jones, Llyr Ifan Davies, Dylan Pitman, Rhun Jones, Efan Thomas, Jake Guest a Leon Hughes. Byddwn yn gweld eich eisiau yn fawr iawn a diolch yn fawr iawn i chi am eich holl ymroddiad i fywyd Ysgol Carreg Hirfaen ar hyd y blynyddoedd.

Yn ystod y tymor diwethaf bu unigolion o'r ysgol yn brysur yn ymarfer ar gyfer cyngerdd offerynnau Proms Sir Gaerfyrddin. Bu Ronnie, Rhys a Roland yn chwarae'r gitâr [llun isod].

Bu llawer o waith dysgu ac ymarfer, ac roedd yn bleser eu gweld ar lwyfan mawr y Theatr yn rhan o grŵp offerynnau Ieuencid Sir Gâr.

Cafwyd noson hyfryd yn ein Ffair



Haf eleni eto. Braff oedd gweld pob plentyn yn CA2 oedd eisiau cymryd rhan yn ein twrnament pêl droed yn cael y cyfle i chwarae ac hoffem ddiolch i'r ysgolion lleol am gefnogi'r noson. Llongyfarchiadau i dîm pêl droed y merched am gyrraedd y ffeinal gan golli o 2 gôl i 1 mewn gêm agos iawn yn erbyn Ysgol Henry Richard.

Enillwyr ffeinal Bechgyn 5 a 6 yn dilyn gêm gyffrous yn erbyn Ysgol y Dderi oedd Ysgol Bro Pedr.

Llongyfarchiadau anferthol i



Cafwyd diwrnod o fabolgampau rhagorol ar ddiwrnod braff ar gae Pentref Cwmann ar y Sed o Fehefin. Enillwyr y medalau am y pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen oedd Megan Lloyd a Gruffudd Roderick. Yng Nghyfnod Allweddol 2 yr enillwyr oedd Casi Gregson, Ellie Gregson a Llyr Ifan Davies. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.



Agos iawn oedd y cystadlu ond Cothi a gipiodd dlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd.

dîm bechgyn 3 a 4 Carreg Hirfaen am ennill y twrnament ynghyd ag Ysgol Bro Pedr. Roedd yn ffeinal agos iawn a doedd dim gwahanu ar y ddau dîm. Diolch i aelodau'r PTA am eu cymorth wrth drefnu'r noson.



Bu timau pêl droed yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Pêl Droed Sir Gaerfyrddin yn ystod y mis. Tra bo timau bechgyn blynyddoedd 5 a 6 a thîm y merched wedi chwarae yn rhagorol ar y noson gan ennill y mwyafrif o'u gemau, aeth bechgyn 3 a 4 ymlaen i ennill y twrnament gan aros yn ddi-guro trwy gydol y gystadleuaeth. Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd Carreg Hirfaen.

Cawsom wahoddiad i gymryd rhan yn nhwrnament Pêl droed Sêr Dewi yn ddiweddar. Chwaraeodd y plant yn arbennig o dda yn erbyn ysgolion

ar draws Ceredigion ac ennill oedd hanes timau'r merched a'r bechgyn o Garreg Hirfaen. Da iawn chi blant!

Ym Myd Athletau dymunwn longyfarch Casi Gregson am ddod yn gyntaf yn Ras 100m ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Dyfed yn ddiweddar. Tipyn o gamp Casi. Llongyfarchiadau anferthol i ti [llun ar y dudalen olaf].

Yn ddiweddar aeth plant dosbarth Meithrin yr ysgol am daith i Fildfeddygfa Steffan yn Llamberd. Roedd yr ymweliad yn rhan o waith y tymor ac yn ymwneud â chathod ac anifeiliaid. Cawsom groeso cynnes yno a diolchwn i'r staff am roi eu hamser i drafod ac i ddangos eu gwaith.

Yn ystod yr hanner tymor penderfynwyd codi arian at elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Gwisgodd y plant ddillad eu hunain i'r ysgol a chafwyd sêl gacennau hefyd. Diolch i bawb am gefnogi. Codwyd y cyfanswm arbennig o £464.

Llongyfarchiadau anferthol i Hari Jones o flwyddyn 4. Mae wedi cael ei ddewis i gynrychioli Tîm Pêl Droed Ysgolion Sir Gâr am y flwyddyn i ddod. Camp arbennig o ystyried nifer y chwaraewyr sydd yn Sir Gâr. Pob lwc i ti Hari [llun ar y dudalen 24].

Llanfair Clydogau

Gŵyl Gwrw

Unwaith eto, am y deuddegfed blwyddyn yn olynol, cawsom ŵyl lwyddiannus dros ben gyda thywydd braf yn denu cynulleidfya sychedig. Roedd y dewis o dros ddeg gwahanol cwrw a seidr Cymreig gyda llawer o 'connoisseurs' yn eu plith. Dechreuodd yr ŵyl amser te ar y dydd Iau a pharhau hyd y nos Sadwrn, gyda barbeciw i gloi'r noson. Diolch i'r gwragedd a fu'n brysur yn paratoi lluniaeth arbennig fel arfer.

Ar y nos Sadwrn roedd y lle yn orlawn a phawb yn mwynhau y cyfle i eistedd tu allan ar noswaith mor braf. Trefnwyd y cyfan gan Lesley Stephens, Glenis Gratwick a'i ffrindiau o Telford sy'n dod bob blwyddyn i'w helpu.

Cydymdeimlad

Hoffem dalu teyrnged i'r diweddar Don Spooner, Yr Allt, cymeriad hoffus a gefnogodd lawer o weithgareddau yn y pentref dros y blynnyddoedd. Byddwn yn gweld ei eisiau. Pleser oedd treulio amser yn ei gwmni diddorol. Cydymdeimlwn â'r holl deulu.

Arddangosfa



Rydym yn edrych ymlaen at ein harddangosfa gelf flynyddol yn neuadd y pentref am y pedwaredd blwyddyn yn olynol. Eleni rydym wedi rhoi gwahoddiad i ddau artist newydd i ymuno â ni, Gwenllian Beynon o Bontrhydfendigaid, sy'n Uwch Ddarlithydd Celf drwy'r Gymraeg yng Ngholeg Celf Abertawe a PCDDS, a Huw Williams o Silian, sy'n bennaeth ar adran Gelf yn Ysgol Gyfun Henry Richard, Tregaron. Byddant yn arddangos eu gwaith gyda'r grŵp o artistiaid arferol. Hefyd eleni, am y tro cyntaf, bydd plant Ysgol y Dderi Blwyddyn 3 a 4 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth arlunio, gyda Gwenllian wedi treulio diwrnod yn yr ysgol yn rhedeg gweithdy iddynt wedi ei ysbrydoli gan ei thaith hi i Ohio yn UDA ar destun 'Yr Ymfudwyr'. Bydd y gwaith yn cael ei feirniadu gan Huw Williams a'i arddangos fel rhan o'r arddangosfa a fydd yn dechrau ar Gorffennaf y 26ain, ac yn parhau hyd ddydd Sul Gorffennaf 29ain o 11 y.b. hyd 6 y.h. Ar y nos Wener bydd ar agor hyd 8.30 y.h. gyda'r artistiaid i gyd yn bresennol o 6 ymlaen. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at gael cwmni ein Haelod Seneddol, Ben Lake ar y nos Wener, sy'n mynd i ddosbarthu gwobrau i enillwyr cystadleuaeth y plant. Croeso mawr i bawb fel arfer i ddod i weld ein harddangosfa a chymdeithasu dros paned a chacen.

Sioe Llanfair Clydogau

Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn brysur yn paratoi erbyn y Sioe sydd yn cael ei chynnal yn y neuadd ar ddydd Llun, Gwyl y Banc, Awst 27ain. Mae rhaglenni yw cael yn siop y pentre i unrhyw un sydd am gystadlu. Mae y sioe yn agored i drigolion plwyf Llanfair. A Chellan, aelodau o'r sefydliadau sy'n cyfarfod yn y neuadd, plant ac wyrion y trigolion.

**Mae'n amser ymuno
â Chlwb Clonc.**

Llenwch y ffurflen ar dudalen 21.

**DIOLCH YN FAWR i
Gyngor Sir Ceredigion am eu rhodd o £500
tuag at gynhyrchu papur Bro Clonc.**

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



O'r diwedd mae'r haf wedi cyrraedd, a dyma ddechrau ar y sioeau amaethyddol ac eisteddfodau o gwmpas y sir. Roedd sioe gyntaf y tymor, sioe Aberystwyth, yn llwyddiant ac yn ddiwrnod braf. Roedd yn bleser hefyd i weld gymaint o bobl ifanc Ceredigion yn llwyddo i ennill gwobrau yn eisteddfod yr Urdd, a llongyfarchiadau i glwb Lledrod ar ennill Rali CFfl Ceredigion. Pob dymuniad da i drefnwyr y sioeau haf i gyd - a gobeithio am dywydd da i bawb.

Wrth i drafodaethau barhau ynglŷn â thrawsnewid gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda, roeddwn yn falch iawn i weld Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod demograffeg a maint rhanbarth Hywel Dda yn cyfrannu at gostau ychwanegol. O ganlyniad i hyn, mae £27 miliwn ychwanegol wedi'i glustnodi pob blwyddyn o hyn allan ar gyfer gwasanaethau iechyd ardal Hywel Dda. Bydd hyn yn rhyddhau cyllid ychwanegol sydd wir eu hangen ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Ngheredigion.

Croesawaf hefyd y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru bod cyllid o £2.4 miliwn wedi'i gadarnhau i Minaeron, canolfan iechyd newydd i Aberaeron. Fe fydd Minaeron yn sicrhau integreiddio gwell rhwng gwasanaethau iechyd a gofal, gan gyfuno'r ddau wasanaeth o fewn yr un lleoliad, a hynny yn ganolfan modern ac addas. Mae'n foddhaol hefyd gweld Ysgrifennydd y Cabinet yn cyhoeddi y bydd y ganolfan yn weithredol o fis Mawrth 2019 ymlaen. Mae Aberaeron wedi hir-aros am fuddsoddiad o'r fath. Mae gwaith wedi dechrau yn Aberteifi gyda chanolfan tebyg, ac mae angen dechrau hefyd yn Nhregaron.

Cawsom gyhoeddiad yn y mis diwethaf ynglŷn â'r fasnachfrait newydd ar gyfer trenau yng Nghymru. Er gwaethaf galwadau am gwmni nid-er-elw, penderfynodd y Llywodraeth dyfarnu'r cytundeb i Keolis Amey. Rwy'n sicr y bydd nifer o etholwyr yn falch i glywed am y cynlluniau i gyflwyno cerbydau newydd ar ein rheilffyrdd, a hefyd yn hapus iawn gyda'r newyddion y bydd gwasanaeth awr cyflawn o Aberystwyth.

Cyn diwedd y tymor ysgol rydw i wedi bod wrthi'n trafod, gyda nifer o rieni ac aelodau staff, y setliad ar gyfer ariannu addysg uwchradd. Rwy'n pryderi fod maint y setliad sydd i'w rhannu gan y Cyngor yn annigonol, a bod hyn yn effeithio ysgolion ar hyd a lled ein sir. Rwy am weld y llywodraeth yn ail-asesu'r arian sy'n cael ei roi i'n hysgolion.

Mae'r sector addysg cyn bwysiced â'r gwasanaeth iechyd, ac mae plant a phobl ifanc Ceredigion yn haeddu pob cefnogaeth. Mae'n hen bryd i ariannu ein hysgolion adlewyrchu tirwedd anghenion a maint ein hardal.

**Sicrhewch eich newyddion yn y
papur hwn. Peidiwch â disgwyl i
rywun arall ei gynnwys ar eich rhan.
Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i
CLONC ymddangos.**

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Llanybydder

Bydd rhai o'r Cynghorwyr yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio gwn sy'n cadw llygad ar foduron sy'n goryrru.

Mae llythyr wedi mynd at berchennog 33 Heol Y Gaer i ddiolch iddo am gadw'r pentref yn gymen wrth godi sbwriel. Diolch yn fawr iawn iddo.

Mae gwahadden yn y parc. Mae'r Clerc wedi cysylltu â pherson cymwys gan obeithio gwaredu'r wahadden.

Mae dwy goeden wedi pydru ym maes parcio'r Clwb Rygbi. Mae'r Cyng. I Davies yn mynd i ymchwilio a dod â'r anfoneb i'r Cyngor.

Mae cyfarfod ar 25 Mehefin yn Neuadd y Gwendraeth i drafod gwahodd Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru i Sir Gâr. Bydd y Cyng. I Davies ac Eirig yn mynd ar ran Cyngor Cymuned Llanybydder.

Os oes rhywun yn darganfod sbwriel gall nawr roi gwybod i Gyngor Sir Gâr ar y rhif 01267 234 567.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Mae'n anodd credu ein bod hanner ffordd drwy dripiâu'r haf erbyn hyn. Sain Ffagan oedd cyrchfan taith mis Mehefin, a threfnwyd y diwrnod gan Brenda Jones a Sulwen Lloyd. Arhoswyd ar y ffordd yng Nghwmcerrig, ac yna ymlaen i Sain Ffagan, a phawb i fynd o gwmpas fel y mynnent. Y tywydd braf yn goron ar y cyfan.

Wedi mwynhau'r prynhawn yn crwydro o un hen le i'r llall, roedd pawb yn barod am bryd o fwyd ar y ffordd adre, a hynny yn Nhafarn yr Hen Bont yn Llangennech. Bwyd ardderchog am bris synhwyrol iawn, a diolchwyd iddynt gan Gadeirydd y Gymdeithas, gan ddiolch yr un pryd i Brenda a Sulwen am drefniadau'r diwrnod ar ei hyd.

Bydd y trip nesaf Dydd Mercher, Gorffennaf 11eg, yn anelu am Machynlleth, ond yn daith ddigael o'r fan honno ymlaen.

Croeso

Croeso cynnes i Dylan, Elen ac Elliw Grug i'w cartref newydd yn Dolydd Dŵr. Gobeithio eich bod wedi setlo yno erbyn hyn.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Nia Davies, Maesglas ar ei swydd newydd yn Ysgol Bro Teifi yn Llandysul. Pob dymuniad da i ti.

C.Ff.I. Llanwenog

Yn ôl ein harfer cafodd y Clwb ei Helfa Drysor blynyddol ar ddechrau mis Mai. Roedd yn noson hwylus dros ben a nifer fawr o gerbydau wedi troi allan. Diolch i Peter a Meinir Ebbsworth a Huw Evans am drefnu. Y car buddugol oedd teulu Luned Mair, felly edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesa.

Rydym wedi cael sawl noson ddiddorol yn ddiweddar pan ddaeth panel i neuadd Gorsgoch am noson o Seiat Holi, a hefyd daeth Sian a Llinos o Clinig bach y wlad i siarad am Ffisiotherapi. Ar ddydd Sadwrn 12fed o Fai cynhaliwyd Chwaraeon y Sir yn Llanbed. Daeth y tîm rownderi a hoci cymysg yn 2ail a daeth y tîm pêl droed yn 4ydd. Diwrnod da a phawb wedi mwynhau yn fawr.

Yna ymlaen i Rali y Sir yn Felinfach. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu. Dyma'r canlyniadau: Crefft 2ail – Carwyn Davies. Ceginio 2ail – Nia Morgans a Guto Ebbsworth. Gwisgo i fyny 2ail – Lois Jones a Hafwen Davies. Ar y Newyddion 2ail. Cneifio unigol dan 26 1af – Steffan Jenkins. Prif gylch – 2ail. Clwb mwyaf gweithgar y flwyddyn 2ail. Arwydd ar gyfer y Rali – 1af. Ar ddiwedd y dydd daeth y clwb yn 6ed. Hefyd llongyfarchiadau i Elin Haf Jones ar gael ei choroni yn Frenhines y Sir.

Roedd pawb yn edrych yn smart iawn.

Wedi prysurdeb y Rali roedd rhaid cael wâc fach ac rydym wedi bod ar dramp llawer yn ddiweddar gan gynnwys ymweliad â fferm Cennydd Jones yn Pontsian, noson ar y canws a kayaks yn Paddlers Llandysul a noson go-cartio yn Llwynceilyn. 'Na beth oedd joio! Rydym nawr yn ymarfer ar gyfer yr athletau y sir, felly tan y tro nesaf...

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Cafwyd diwrnod mabolgampau hyfryd ar gaeau'r ysgol. Bellach, mae'r disgyblion wedi dewis enwau tri thŷ gwahanol sef Alltgoch, Grannell a Maes. Ar ddiwedd prynhawn o gystadlu brwd daeth Maes i'r brig. Diolch o galon i Euros a Meinir Lewis am rhodd o gwpan er cof am John a May Lewis, Talardd. Bydd hwn yn gwpan a roddir yn flynyddol i dŷ buddugol y mabolgampau.

Mae gwersi beicio blwyddyn 6 wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn dysgu sgiliau pwysig ar sut i fod yn ddiogel ar yr heol. Erbyn hyn mae pob un disgybl wedi derbyn tystysgrif yn dangos eu bod wedi pasio fel beicwyr gofalus.

Da iawn i'r timoedd pêl droed bechgyn a merched a fu'n chwarae mewn dau dwrnament yn ddiweddar. Ymdrechodd pawb yn nhwrnament Tregaron a Charreg Hirfaen.

Mae cwmni ffotograffiaeth wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar i dynnu lluniau o bob dosbarth ac wrth gwrs llun o'r ysgol gyfan yn ei blwyddyn gyntaf. Mae modd prynu copi o'r llun hwn yn yr ysgol.

Aeth criw o flwyddyn 5 draw i'r Ganolfan Iaith yn Felinfach er mwyn bod yn rhan o'r Sgwad Sgwennu. Cyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol yw hwn ac roedd y plant wedi mwynhau mas draw.

Mae nifer o blant blwyddyn 6 wedi bod yn ymarfer ar gyfer cyngerdd Proms Ceredigion. Maent wedi bod yn ymarfer canu y caneuon yn Ysgol Bro Teifi gyda nifer o aelodau o flwyddyn 6 ysgolion eraill yr ardal. Mae un aelod hefyd yn rhan o Gerddorfa y Sir a fydd yn chwarae yn yr un gyngerdd.

Rydyn ni fel ysgol yn dymuno'n dda i Ficer Suzy Bale wrth iddi ffarwelio gyda ni fel Ficer. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth i'r ysgol a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Bu'r athrawon cerddoriaeth teithiol yn rhoi cyngerdd i blant yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i glywed nifer o wahanol darnau o gerddoriaeth cyfoes a chael ein cyflwyno i bob math o offerynnau.

Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu digwyddiadau ar gyfer codi arian tuag at eu helusen, sef Diabetes Cymru. Roedd llawer o sbri gyda'r chwaraeon dŵr yn ffordd hwylus o

godi arian tuag at achos da.

Pob dymuniad da i griw blwyddyn 6 a fydd yn ffarwelio â ni ddiwedd y tymor. Diolch o galon i griw mor hyfryd a bonheddig sydd wedi rhoi o'u gorau bob tro. Cofiwch gadw mewn cysylltiad a galw i'n gweld.

Banc yn cau



Ar ddydd Mawrth, 12 Mehefin, caewyd drysau banc NatWest Llanbedd am y tro olaf. Dyma ergyd arall i'r dref, er bod poster yn y ffenest yn nodi bod ffyrdd eraill ar gyfer bancio'n ddiogel – ond bydd cwsmeriaid Llanbedd a'r pentrefi o amgylch yn gweld diffyg cangen lleol fel anhwylystod mawr, o ystyried bod y gangen agosaf tua 25 milltir i ffwrdd.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.



CYFRIFYDD SIARTREDIG

**Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY**

- ❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234**

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr

Cafwyd taith ddirgel lwyddiannus gan Ferched y Wawr Llanbed i orffen ein blwyddyn ar ddydd Mercher 12fed Mehefin. Ar ddiwrnod hyfryd o braf aethpwyd i lawr i Bronwydd ar gyfer taith trên ar lein y Gwili, gan fwynhau yn fawr. Cafwyd ychydig o amser yng Nghaerfyrddin a the bach yn y Llwyn Iorwg. Yn goron ar y cyfan aethpwyd i Dafarn Gwlad y Holybrook ym Mronwydd a daeth ychydig aelodau eraill i ymuno. Cafwyd swper hyfryd yno a diolchodd Morwen i bawb am flwyddyn lwyddiannus ac i Noleen a Janet am drefnu'r daith. Hefyd diolchodd i Morfudd a Gwynfil ein ysgrifenyddion trefnus a Veronica James ein trysorydd gweithgar ac aelodau y pwyllgor am eu cyfraniad. Diolchwyd i staff yr Holybrook am fwyd hyfryd.

Enillwyd y raffl gan Elma.

Trefi taclus

Ydych chi'n poeni am daclusrwydd a chyflwr ein tre? Rydym fel Cyngor tref yn cychwyn cynllun Trefi Taclus o 10-1 o'r gloch ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 16. Byddwn yn cwrdd ar Barc yr Orsedd a chan obeithio bydd llawer o wirfoddolwyr yn dod, byddwn yn gwahanu i wahanol leoedd yn Llanbed i gasglu sbwriel a thacuso. Gobeithir gwneud hyn yn fisol.

Darperir offer i ni o dan y cynllun Trefi Taclus gan Gyngor Sir Ceredigion. Dewch yn llu, mae'n agored i bob oed!

Mwy o fanylion gan Clerc y Dre neu gan y Maer 07791966122

Noson Bryn Fôn a Beth Celyn

Cafwyd noson fendigedig yn Neuadd Fictoria ar nos Sadwrn 16 Mehefin pan ddaeth llu o bobl i gefnogi Pwyllgor Gŵyl Dewi y dref a mwynhau noson acwstig a pherfformio gwyd gan Bryn, John a Rhys. Hefyd gwrandawyd ar lais bendigedig Beth Celyn yn cyfeilio i'w hunan. Roedd yn braf cael pobl o bob oed yn cymdeithasu mewn digwyddiad Cymreig ar stepen y drws.

Diolch i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn trefnu ac i Steffan Rees o Cered am gyd-drefnu'r grwpiau a'r tocynnau ac ati.

Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu noson arall bydd pwyllgor nesaf Gŵyl Dewi a'r parêd yn yr Hydref.

O.N. Gadawyd modrwy arian ac addurn arno yn neuadd Fictoria noson y gig. Cysylltwch â ni ar y pwyllgor - 07791 966122.

Y Gymdeithas Hanes

Daeth tymor 2017-18 i ben ym mis Mai o ran ein cyfres o siaradwyr, ond mae bron yn draddodiad erbyn

hyn ein bod yn cael taith i orffen y flwyddyn yn swyddogol. Cadeirydd y Gymdeithas fu'n gyfrifol am drefnu'r trip eleni, ac aeth llond bws o'r aelodau a rhai ffrindiau i Abertawe ar y 18fed o fis Mehefin.

Ymwelwyd yn gyntaf â'r Amgueddfa Forwrol, cyn cael taith mewn cwch o'r Marina i fyny'r Afon Tawe. Cafwyd hanes yr ardal drwy gyfnod y gweithfeydd Copr a Haearn - Abertawe yn allforio canran uchel iawn o'r copr a ddefnyddiwyd led-led y byd. Yr awyr yn ddu gan effaith y mwg o'r cannoedd simneiau, a phob tyfiant yn cael ei ddifrodi gan effaith y llygriad i'r awyrgylch. Codwyd cannoedd o dai i'r gweithwyr a ddaeth i'r ardal, ond y cyfleusterau glendid yn sobor o annigonol, ac afiechydon yn rhemp o'r herwydd. Erbyn heddiw, dim ond dwy simnai sydd ar ôl, a'r rheini'n ddi-fwg; maent yno i ddangos beth a fu yn nhreftadaeth yr ardal. Mae'r afon erbyn hyn yn lân, tai a fflatiau o gwmpas ei glannau, a thyfiant gwyrdd ymhobman.

Wedi cyfle am ychydig luniaeth, teithiwyd i gyfeiriad Treforus, ac ar y ffordd cael hanes magwraeth y Cadeirydd yn yr ardal honno. Cyrhaeddwyd Treboeth, a Chapel y Mynydd Bach; un o gapeli cynharaf yr Annibynwyr, adeiladwyd ym 1762, a'i ail-adeiladu ym 1865. John Humphrey oedd cynllunydd yr adeilad newydd, ef hefyd a gynlluniodd Capel y Tabernacl yn Nhreforus, ac o ddiddordeb i'r ardal hon, Capel Ffaldybrenin. Yn 2011 roedd y Capel ar fin cael ei ddymchwel, ond trwy ymdrech y Gweinidog a Chymdeithas Hanes Treboeth, achubwyd yr adeilad hanesyddol yma, ac mae erbyn hyn wedi ei ddynodi yn 'Canolfan Calon Lân'. Yma y magwyd Daniel James, neu Gwyrosydd i roi ei enw barddol, ac ef a gyfansoddodd geiriau'r emyn adnabyddus, Calon Lân. Er iddo symud o'r ardal i chwilio am waith, yma mae ei orweddfan, ac yn briodol iawn canwyd yr emyn ar lan ei fedd.

Diolch i'r Cadeirydd am drefnu diwrnod arbennig, yn llawn hanes ac yn cloi'r tymor mewn ffordd ddiddorol dros ben. Bydd cyfarfodydd y Gymdeithas yn ail-ddechrau ym mis Medi.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Braf oedd gweld aelodau Aelwyd yr Urdd yn cyrraedd llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni eto. Cyflawnodd y grŵp llefaru dan 15 oed gamp rhyfeddol trwy ennill y gystadleuaeth am y drydedd flwyddyn yn olynol. Derbyniodd y grŵp oedd yn cynnwys 16 o aelodau ganmoliaeth aruchel am eu dehongliad gwefreiddiol o'r gerdd Ffermdai gan Bryan Martin Davies. Diolch o galon i Elin am eu hyfforddi. Mawr yw'r

diolch hefyd i Llinos, trefnydd yr ymarferion ac i Janet am sicrhau bod pob un yn edrych yn smart mewn crys yr Aelwyd.

Hefyd enillodd Elan a Beca y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth y ddeuawd cerdd dant dan 19 oed. Yn ôl y beirniad roedd eu lleisiau cyfoethog a chynnes yn cydweithio fel un ac o ganlyniad cafwyd perfformiad caboledig o safon uchel.

Bu'r grŵp llefaru dan 12 hefyd yn cystadlu ac yn ôl y beirniad roedd ymysg y goreuon. Cafwyd perfformiad canmoladwy hefyd gan Betrys ac Alwena yn y ddeuawd cerdd dant dan 12 oed a'r beirniad eto yn nodi eu bod yn agos i'r llwyfan.

Llongyfarchiadau i'r aelodau ar eu llwyddiant ac am ddod â chlod ac anrhydedd i ardal Llambled. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd y llwyfan gan fod y safon mor uchel.

Dymuna swyddogion yr Adran a'r Aelwyd ddiolch yn ddiffuant i'r rhieni am eu parodrwydd i gludo'r aelodau i Lanelwedd - gwerthfawrogi eu cefnogaeth yn fawr.

Mwynhawyd ein hymweliad yn fawr iawn.

Nos Wener 15 Mehefin bu Côr yr Adran a'r Aelwyd dan arweiniad Rhiannon, a Lois yn cyfeilio, yn cymryd rhan mewn Noson Lawen yng Nghanolfan Hamdden y dref i'w darlledu ar S4C yn yr Hydref. Profiad arbennig i'r plant a'r bobol ifanc oedd rhannu llwyfan gyda Rhys Meirion, Alejandro Jones, Côr merched Ger y Lli, ac eraill. Diolchir yn ddiffuant i Rhiannon a Lois am eu gwaith diflino ac am roi'r cyfle i bawb gymryd rhan, o 7 hyd 17 oed. Roedd y Côr yn cynnwys 38 a diddorol yw nodi bod aelodau'r Adran yn mynychu nifer o ysgolion sef Bro Pedr, Carreg Hirfaen, Bro Teifi, Y Dderi, Dyffryn Cledlyn ac Aberaeron ac aelodau'r Aelwyd yn byw mewn pentrefi amrywiol o gwmpas Llambled.

Pleser oedd gwrandao ar lais Rhiannon ar Radio Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau iddi ar ei chyfraniad amhrisiadwy. Mae ganddi sylwadau diddorol o hyd sy'n dangos ôl paratoi manwl. Mae Rhiannon a Hywel yn cyd-weithio mor dda a phob amser yn codi gwên.

Bydd cyfarfodydd yr Adran a'r Aelwyd yn ail ddechrau ym mis Medi ac estynnir croeso cynnes i bawb. Diolch i'r holl aelodau am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch yn ystod y flwyddyn.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Lowri Elen ar ei llwyddiant wedi iddi dderbyn Gradd BMus (Anrhydedd) mewn Cerddoriaeth gyda dosbarth 2:1 o Brifysgol Bangor, oddi wrth y teulu i gyd.

Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol wrth iddi barhau gyda'i astudiaethau MA ym Mhrifysgol Bangor.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn un lwyddiannus unwaith eto yn hanes yr Ysgol Sul a'r aelodau yn mynychu'n ffyddlon bob nos wener a'r rhieni yn cymryd eu tro i gynorthwyo.

Bu'r plant a'r bobol ifanc yn cymryd rhan yn Oedfaon yr Ifanc, yn y Gymanfa Ganu ac yn diddori'r Henoed yng Nghartref Hafandeg a phob amser yn rhoi o'u gorau a phawb yn cael pleser mawr o wrando arnynt. Er bod nifer ohonynt yn ifanc iawn maent mor frwdfrydig ac yn rhoi gwên ar wynebau eu cynulleidfia wrth gymryd rhan yn Oedfaon yr Ifanc.

Braf oedd croesawu aelod newydd yn ddiweddar sef Hari Jenkins, Stryd Newydd, ac mae wedi setlo lawr yn hapus iawn yn ein plith.

Nos Wener 6 Gorffennaf am 4.15 bydd yr aelodau eto yn diddori preswylwyr Hafandeg. Mae'r Henoed bob amser yn falch iawn o'u croesawu ac yn mwynhau eu cyfraniad yn fawr. Bydd gwylliau wedyn dros yr haf.

Dymuna Janet ddiolch o galon i'r plant a'r bobol ifanc am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch ac i'r rhieni yn enwedig Llinos am eu cydweithrediad parod bob amser.

Edrychwn ymlaen at gyd weithio hapus eto ym mis Medi.

Daeth llwyddiant mawr i ran ieuenctid Noddfa yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd eleni. Cipiodd Cerys Angharad y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth yr unawd telyn dan 12 oed am berfformiad hynod feistrolgar o un mor ifanc. Hefyd enillodd Elan a'i ffrind Beca Ann y wobwr gyntaf yn y ddeuawd cerdd dant dan 19 oed. Roedd nifer o'r merched yn aelodau grŵp llefaru Aelwyd Llambled a ddyfarnwyd yn gyntaf a hynny am y drydedd flwyddyn yn olynol dan hyfforddiant Elin, heb anghofio Trystan Bryn oedd yn aelod o barti dawnsio gwerin buddugol Adran Penrhyd. Hefyd enillodd Beca y drydedd wobwr am ysgrifennu barddoniaeth.

Bu'r flwyddyn hyd yma yn un anhygoel i Cerys Angharad gan ddechrau drwy ennill yr unawd telyn dan 12 oed yn yr Wyl Gerdd Dant ynghyd a'r unawd offerynnol yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid. Yn ogystal â dod i'r brig yn Eisteddfod yr Urdd, fe'i dewiswyd fel aelod

Llanbedr Pont Steffan

o Gerddorfa Plant Prydain Fawr a hefyd fel aelod o Gôr Only Kids Aloud. Mae pawb ohonom yn ymfalchïo yn ei llwyddiant. Pob lwc i ti eto Cerys yn y dyfodol.

Oes, mae yna dalent arbennig yn perthyn i blant a phobl ifanc Noddfa ac estynnir llongyfarchiadau calonnog i bob un ohonynt a dymuniadau gorau eto i'r dyfodol.

Diolch iddynt am fod mor barod i rannu eu doniau gyda ni yn Noddfa. Gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr iawn.

Clwb Rotari



Roedd yn bleser mawr gan Glwb Rotary Llambled yn ddiweddar i anrhydeddu Gordon Lonsdale, Drefach, Llanwenog am ei waith rhagorol yn y gymuned dros y blyneddau. Gweler Mr Lonsdale yn derbyn ei dystysgrif gan y Llywydd, Pauline Roberts-Jones.

Dysgwyr o Geredigion yn Enillwyr Cenedlaethol



Ddydd Sadwrn, 19 Mai gwobrwywyd 4 dysgwr o Geredigion am safon eu Cymraeg ysgrifenedig yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr ym Machynlleth. Ers sawl blwyddyn bellach cynhelir cystadlaethau ysgrifennu Cymraeg yn genedlaethol gan Ferched y Wawr, a hynny i ddysgwyr sy'n ddynion a menywod fel ei gilydd. Cynhelir y cystadlaethau ar dair lefel, sef lefel Sylfaen, Canolradd ac Uwch ac eleni daeth 4 o'r 9 gwobr i Geredigion ac i ddysgwyr sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol Rhos Helyg, Campws Llangeitho bob nos Fawrth ac yn Ysgol Bro Pedr, Llambled bob nos Fercher gyda'r tiwtor Carol Thomas o Lanwnnen. Gwobrwywyd Shelagh Yeomans o Heol Llanio, Tregaron â'r wobwr gyntaf a Graham Parker o Benuwch â'r ail wobwr ar lefel Sylfaen am ysgrifennu cerdyn post o lan y môr. Ar lefel Ganolradd gwobrwywyd dwy o Lwyn-y-groes gydag Ann Owen yn derbyn y wobwr gyntaf a Jane Unitt yr ail wobwr am ysgrifennu dyddiadur wythnos 'Ar Lan y Môr'. Mewn seremoni urddasol ar lwyfan yr Ŵyl ym Machynlleth cyflwynwyd tlws o lechi, tystysgrif a thocyn llyfr yr un iddynt.

Wrth glywed am eu llwyddiant, dywedodd Carol Thomas, eu tiwtor "Rwy'n hynod falch o'r dysgwyr, nid yn unig am y gwobrau y maent wedi'u hennill, ond hefyd am eu hymroddiad a'u dycnwech yn meistrolï'r iaith a'i defnyddio'n feunyddiol yn eu bywydau".

Ymatebodd Graham Parker drwy ddweud "Mae dysgu Cymraeg yn nosbarth Llangeitho yn brofiad gwych. Mae'r dysgwyr eraill mor gyfeillgar a chefnogol ac mae Carol yn diwtor arbennig sydd bob amser yn ein hannog i fwynhau'r iaith, i fanteisio ar bob cyfle i siarad, ysgrifennu, cymdeithasu a chystadlu ar lefel lleol a chenedlaethol."

Cydymdeimlo

Wrth i CLONC cael ei orffen fe ddaeth y newyddion trist am farwolaeth Margaret Davies Jones, Glanhelen, Heol y Gogledd neu Margaret Dolen fel yr oedd rhai yn ei galw. Nid oedd wedi cael yr iechyd gorau ers rhyw ddeufis ac roedd wedi treulio yr amser hynny mewn ysbytai yng Nghaerdydd a Glangwili. Chwithdod mawr yw ei cholli a chydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'r merched Sian a Heini a'u teuluoedd hwy a'r holl gysylltiadau teuluol eraill.

Pêl-droed Llambled

Croeso nôl i ŵyl Pêl-Droed Llambled!

Ar ddydd Sadwrn Mehefin 16eg, ar gaeau'r Brifysgol, croesawyd nôl Gŵyl Pêl Droed Llambled ar ôl absenoldeb o ugain mlynedd.

Wedi misoedd o baratoi, daeth y diwrnod mawr. Roedd y tywydd wedi bod yn braf drwy'r wythnos, gwnaeth hyn yr adeiladu a'r cynllunio yn haws o lawer i bawb.

Bu llawer o ddiddordeb gan dimau lleol, i dimau o gryn bellter fel Casnewydd a Abergwaun o Sir Benfro.

Yn cystadlu ar y dydd roedd timau Dan 6, Dan 8, Dan 10, Dan 12, Dan 14 a Merched Dan 12.

Wedi cystadlu brwd roedd rhaid cael enillwyr. Canlyniadau'r dydd oedd:

Dan 10:- Enillwyr – Casnewydd (Penfro). Yn ail:- Llambled

Dan 12:- Enillwyr – Llanilar. Yn ail – Felinfach

Dan 14:- Enillwyr – Ffostrasol. Yn ail :- Aberaeron

Merched Dan 12:- Enillwyr – Sêr Caerfyrddin. Yn ail :- Llambled.



Braf oedd gweld Casi Gregson o Dîm merched Llambled yn ennill chwaraewraig y twrnamaint o Dan 12 i Ferched a Dion Deacon Jones [llun ar y chwith] yn ennill chwaraewr y twrnamaint o Dan 10 yn Llambled a Boncath. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr, ond mwy na hynny, gobeithio cafodd y plant i gyd fwynhad drwy chwarae pêl droed a chystadlu.

Ar ran Clwb Llambled, diolchwn i'r plant, rhieni a'r cefnogwyr am eu cefnogaeth drwy'r dydd, ond mae'r diolch mwyaf i'r gwirfoddolwyr a fu'n paratoi am yr wythnosau yn arwain i fyny at y diwrnod. Diolch i'r busnesau lleol am eu hamser a'u

haelioni i wneud y diwrnod yn un llwyddiannus a hwylus i bawb. Edrychwn ymlaen i groesawu pawb yn ôl i dwrnamaint Llambled yn 2019.



Llongyfarchiadau mawr i dîm Pêl-droed Dan 6 Llambled ar gyrraedd y rownd derfynol yn nhwrnamaint Tregaron yn ddiweddar.

Mabolgampau Bro Pedr



Molly a Rory Ysgol Bro Pedr yn derbyn Mabolgampwr a Mabolgampwraig y flwyddyn am y disgyblion o flwyddyn 6 a'r marciau uchaf yn y cystadlaethau unigol.

Llanllwni

Llongyfarchiadau



Mewn seremoni a gynhaliwyd yng nghynhadledd flynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru yn ddiweddar ac yng ngofal y Parch Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, urddwyd y Parch Aled Davies yn Llywydd yr Undeb am y flwyddyn 2018-2019. Mae Aled wedi cael ei eni a'i fagu yn Glanafon, Llanllwni. Bellach mae wedi bod yn weinidog ers nifer fawr o flynyddoedd yn ardal Llŷn ac Eifionydd ac yn byw yn Chwillog. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Cyhoeddiadau'r Gair. Cynhaliwyd y gynhadledd yng Nghanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn, lle hudolus. Llongyfarchiadau mawr iddo. Yn y llun mae Judith ac Aled, gydag Aled yn arwyddo'r Beibl Llywyddol.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Clwb 100 mis Mai 2018 -

Enillwyr:

1. £15 Ifora Parry (rhif 60). 2. £10 Eurig a Rosalind Thomas (15). 3. £10 Anwen Evans (120).

Canlyniadau mis Mehefin:

1. £15 Ifan Thomas (21). 2. £10 Daniel Thomas (37). 3. £10 Lydia Jones (88).

Diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau

Aeth tair o'n haelodau Janet, Meg ac Eirian i'r Wyl Archddeoniaeth yn Eglwys Castell Newydd Emlyn yn ddiweddar.

Cynhaliodd y Parch Suzy Bale ei gwasanaeth olaf yn Eglwys Sant Luc ar Fehefin 24ain. Bydd cyfle arall i ddymuno'n dda iddi yn ei hardal newydd yn y Noson Goffi a Barbeciw blynyddol, ac ar ddydd Sul Gorffennaf 1af bydd y pedair eglwys dan ei gofal yn cyd-addoli mewn gwasanaeth Gymun yn Eglwys Llanybydder. I ddilyn bydd cinio ffarwel i'r Ficer yn y Black Lion. Mae'n gadael yr ardal gyda'n dymuniadau gorau a llwyddiant mawr iddi wrth fynd ymlaen â'i gyrfa.

Cafodd Teleri Parry, merch Geraint a Louise Panteg, ei bedyddio gan y Ficer ar ddydd Sadwrn Mehefin 16eg yn Sant Luc, ac mae croeso cynnes i Teleri fel aelod newydd o deulu'r Eglwys.

C.Ff.I. Llanllwni

Yn noson chwaraeon y sir eleni fe wnaeth y clwb gystadlu yn y cystadlaethau hoci a phêl-droed, gyda rhai aelodau yn ymuno â chlybiau eraill er mwyn creu

tîm. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu. Yn y Diwrnod Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth, fe wnaeth Hefin Jones, Dan Jones, Siôn Evans a Siriol Howells ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth frisbee a gwnaeth Catrin Evans cael ei dewis i fod yn nhîm pêl-rwyd y sir a wnaeth hefyd ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau i bawb.

Mae diwrnod hwyl Llanllwni eleni yn cael ei gynnal ar y 7fed o Orffennaf, sydd yn ddiwrnod i'r teulu gyfan, Welwn ni chi 'na!

Eleni mae newidiadau yn cael ei wneud yn sioe flynyddol y clwb. Dyma fydd y tro cyntaf inni beidio cynnal cystadleuaeth cŵn defaid a'i newid i hen gerbydau yn cael eu harddangos a sioe gŵns. Fydd yna gyfle hefyd i gwmnioedd ddod â stondin i werthu eu nwyddau. Os ydych am fwy o wybodaeth am yr hyn sydd yn digwydd cysylltwch ag un o aelodau'r clwb.

Pob lwc i holl aelodau'r clwb sydd yn cynrychioli Llanllwni mewn cystadlaethau cenedlaethol dros y mis nesa. Bydd yr holl ganlyniadau yn y rhifyn nesaf.

Diolch

Dymuna Eric a Tegwen, Ninant ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y lluo o gardiau ac anrhegion ar achlysur dathlu eu Priodas Aur.

Ysgol Llanllwni

Cawsom £180 gan "Bags2School" ac rydyn yn ddiolchgar i bawb a ddaeth â bagiau o hen ddillad i'r ysgol.

Daeth P.C. Cath i roi sesiwn ar fod yn ddinasyddion da i ddisgyblion yr Adran Iau.

Yn ein sesiynau Campau'r Ddraig rydyn wedi bod yn ymarfer ein sgiliau pêl trwy chwarae rownderi a chrieded a datblygu ein sgiliau athletau.

Diolchwn i'r Menter Iaith am y gwahoddiad cawsom i berfformio ar y llwyfan yng Ngŵyl Fwyd Castell Newydd Emlyn ar Ddydd Sadwrn, 9fed o Fehefin. Canodd y plant yn ardderchog a diolch i'r rhieni a ddaeth i'w cefnogi. Diolch am y croeso.

Bu nifer o'r disgyblion yn chwarae pêl droed mewn gwahanol gystadlaethau yn ddiweddar. Aeth tîm o'r adran Iau draw i Saron gan chwarae yn dda iawn. Yna buom yn Llanfihangel ar Arth ar ddwy noson. Y noson gyntaf y plant hŷn oedd yn cystadlu gan chwarae yn arbennig o dda yn erbyn timoedd cryf iawn. Yna ar yr ail noson, plant o flynyddoedd 3 ac Iau oedd wrthi a cawsant hwyl arbennig gan ennill y gystadleuaeth a derbyn tarian yr un. Yn ogystal cafodd Caio Benson ei enwi fel y chwaraewr gorau o blith yr holl fechgyn gan dderbyn tarian arbennig. Da iawn chi gyd.



Gan mai thema y Cyfnod Sylfaen y tymor hyn yw "Tir a Môr" fe benderfynon ni fynd am ddiwrnod i Gei Newydd. Cawsom ddiwrnod ardderchog yn chwarae ar y traeth ac yn ymweld â Bad Achub yr RNLI. Diolch i Bernie a Ken am ein tywys o gwmpas y cwch ac esbonio eu gwaith.



Bu plant yr Urdd o flynyddoedd 3 a 4 yng nhwrnament criced ar gaeau criced Llandysul gan fwynhau yn fawr.

Bu rhai disgyblion o flwyddyn 5 am ddiwrnod pontio yn Ysgol Bro Teifi. Roedd yn gyfle iddynt fynd o amgylch yr ysgol a derbyn rhai gwersi.

Cawsom ddiwrnod Eco ar y 22ain o Fehefin lle buom yn chwynnu a phlannu blodau mewn potiau o gwmpas yr ysgol. Diolch i Richard, Farnyard Nurseries a'r rhieni am gyfrannu blodau a hadau. Rydyn yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr iawn. Gwaith y plant nawr yw dwrhau y planhigion a sylwi ar yr hadau yn tyfu!

Newyddion da i'r ysgol oedd clywed ein bod wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith. Aeth Miss Evans a dau o aelodau'r Criw Cymreig, Elan a Tomasz, i Barc y Sgarlets i dderbyn y wobr. Mae'n braf clywed y plant o gartrefi di-gymraeg yn dod i siarad Cymraeg mor rhugl a phawb yn defnyddio y Gymraeg wrth chwarae ar yr iard. Diolch i Miss Evans am gydlynw'r gwaith.

Mewn gwasanaeth boreol yn ddiweddar daeth dwy ddynes o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin atom i gyflwyno Gwobr i'r ysgol am weithio mewn partneriaeth. Roedd y gwasanaeth yma hefyd yn wasanaeth olaf Canon Susie Bale yn yr ysgol. Cyn iddi adael fe dderbyniodd anrhegion, blodau a chardiau o ddiolch oddi wrth Mr Gareth Jones ar ran y staff a'r plant ac fe ddymunodd pawb bob hwyl iddi yn ei swydd newydd yn Rhydaman.

Cawsom ein mabolgampau ysgol ar brynhawn Mawrth, 26ain o Fehefin ar Gae Chwarae y pentref. Ar ôl cystadlu brwd rhwng y timoedd, tîm Teifi oedd â mwyaf o farciau ac yn ennill y darian fawr. Da iawn chi. Dyma enillwyr y tarianau: Bachgen CA2 - Tudur, Merch CA2 - Nikola, Bachgen y Cyfnod Sylfaen - Stanley, Merch y Cyfnod Sylfaen - Erin a Tegwen. Diolch i Tomasz a Connor am gyfrannu at y tarianau. Yn ennill y medalau

Llanllwni

am y mwyaf o farciau yn mhob blwyddyn oedd - Blwyddyn 6 - Connor, Blwyddyn 5 - Nikola, Blwyddyn 4/3 - Tudur, Blwyddyn 2/1 - Erin, Blwyddyn Derbyn - Elliw, Meithrin - Tegwen ac yn adran y Cylch Meithrin yr enillwyr oedd Corah ac Alys. Diolch i rieni a ffrindiau a ddaeth i gefnogi ac i gynorthwyo. Diolch i Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol am drefnu'r raffl a bod yng ngofal y pop a'r creision. Diolch i Dave a Tracey, Y Swyddfa Bost am roi'r pop a'r creision. Diolch i Eric Davies a Tom Jones am fod wrth y gât ac i Eric Davies am sicrhau bod y cae yn barod.

Llongyfarchiadau i Mr Eric Davies, Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol, a'i wraig Mrs Tegwen Davies ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Pob iechyd i chi eich dau yn y dyfodol.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â Connor Smith a Tomasz Nowak o flwyddyn 6. Rydyn yn dymuno yn dda iddynt yn ysgol Bro Pedr ym Mis Medi a chroeso i chi alw 'nôl i'n gweld gyda'ch hanesion!

Cofiwch am y Diwrnod Hwyl sydd yn cael ei gynnal Dydd Sadwrn 7fed o Orffennaf ar Gae Chwarae y pentref am 1 o'r gloch. Bydd yna garnifal, mabolgampau, tynnu'r gelyn, barbeciw, stondinau, lluniaeth - digon o weithgareddau i'r teulu cyfan. Llywyddion y dydd fydd Mr a Mrs Emyr Evans, Cefencoed. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol. Mis Mehefin: 1af - £10 - Dilwyn Gibby, Erwlon, Llanybydder. 2ail - £5 - Adam Whitworth, Greenacres, Llanllwni. 3ydd - £5 - Betsan Jones, Cwrt y Cadno, Llanllwni.

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae'r cylch wedi bod yn gwneud amryw o weithgareddau ar thema tylwyth teg drwy greu tŷ bach a gardd fach iddynt. Maent hefyd wedi bod yn coginio cacennau bach.

Fe fydd y plantos yn cymryd rhan yn mabolgampau'r ysgol ar y 26ain

o Fehefin yn y parc. Gobeithio bydd yr haul yn gwenu. Maent wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer.

Hip hip hwrê, mae Cyw yn ddeg oed - fe fydd y Cylch Meithrin yn gwneud amryw o weithgareddau i ddathlu hyn.

Ar yr 2il o Orffennaf, byddwn yn croesawu Bethan Vernon yn ôl fel arweinydd y cylch, wrth iddi ddychwelyd o'i chyfnod mamolaeth. Hoffem ddiolch yn fawr i Helen Davies am ei gwaith caled fel arweinydd dros dro ac hefyd i Delyth Evans am ei gwaith fel cynorthwy-ydd dros dro. Mae'r cylch wedi elwa yn fawr o'ch arbenigedd.

Ar y 17eg o Orffennaf, mae'r staff a'r pwyllgor yn trefnu swper diwedd tymor yn nhafarn y Talardd yn Llanllwni. Am docynnau, cysylltwch â Glenys neu Rhian.

Ar y 19eg o Awst, mae'r Cylch Meithrin yn trefnu gorymdaith tractorau, i gychwyn am 10:30 o Faes Parcio T L Thomas yn Llanllwni. £20 y tractor sydd hefyd yn cynnwys pryd dau gwrs ar y diwedd. Hefyd fe fydd yna orymdaith i'r plantos i gychwyn am 10:15. Dewch i gefnogi!

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg ar foreau dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener ar gampws yr ysgol Gynradd, rhwng 8:45 a 12. Cynigir addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Helen Davies ar 07890 004203 neu cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Edrychwch hefyd ar ein tudalen facebook newydd.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Yn ddiweddar mae'r cylch Ti a Fi wedi bod yn creu crefftâu Sul y Tadau ac yn ymweld â Little M'zzz yn Llanybydder.

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar foreau dydd Iau, rhwng 10-12yb ar gampws yr ysgol Gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgu a thadcu i ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.

Cofiwch am y digwyddiad cyffrous yma ym Mis Medi

Diwrnod Ffordd o Fyw Hyfrydwch a Harddwch yr Hydref

Diwrnod agored yng Nghegin Gareth, Dydd Sadwrn, 8fed Medi

Patrwm y Dydd:
10.30 cyrraedd am de/coffi a danteithion
11.00-1.00 Arddangosfa goginio, gwneud y gorau o gynnyrch yr Hydref
1.00 ymlaen: Cinio 3 chwrs.

Pris y pen: £20

I archebu tocyn, cysylltwch â'r Goedwig (01570 422313)

Yn y Gegin gyda Gareth



Y mis yma rwyf am ganolbwyntio ar rysetiau sydd yn addas i'r fasedg bicnic.

I mi, mis Gorffennaf yw'r mis i wledda tu fas; does dim yn well na mwynhau danteithion cartref allan yn yr awyr agored - gyda chwmni da, bwyd da, a golygfa dda!

Felly, ar ôl ychydig o feddwl ac arbrofi, dyma rysetiau addas i'w cludo. Cofiwch, rydym bob amser yn bwyta mwy yn yr awyr iach, ac mae popeth fel petai â mwy o flas. Does dim brechdanau ar y fwydlen, ond dyma ddanteithion gwahanol ar gyfer Picnic 2018. Mwynhewch yr Haf, gan obeithio am dywydd perffaith i'r picnic yma.

Pob hwyl wrth bacio'r Picnic,

Gareth

Pei Picnic

375 g toes pwff wedi ei rholio'n barod (ready rolled puff pastry)	
Pot 250 g caws Ricotta	1 wy
3 llwy fwrdd o gaws wedi'i gratio	100 g ham wedi'i ddarnio
3 corbwmpen (courgettes)	2 llwy fwrdd o gnau pîn

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C
2. Leiniwch dun pobi â phapur gwrthsaim, a rholiwch y toes drosodd. Rhedwch gyllell o gwmpas y toes (tua ¾ modfedd o'r ymyl) - heb dorri'r drwyddo, i greu fframwaith.
3. Cymysgwch y ricotta, ham, wy, a 2 llwy fwrdd o'r caws, a gwasgarwch dros y toes y tu fewn i'r fframwaith.
4. Torrwch y gorbwmpen yn gylchoedd tenau, a gosodwch ar yr wyneb, ac yna gweddill y caws.
5. Pobwch am 20 -25 munud, yna ysgeintiwch y cnau drosodd, a'i roi yn ôl yn y ffwrn am tua 5 munud.
6. Gadewch i oeri cyn ei dafelli i'r picnic.

Salad mas-tu-fas

300 g 'bulgur wheat'	
1 chili coch	100g sbigoglys
4 shibwns	1 leim
3 llwy fwrdd olew'r olewydd	100g Caws Ffeta
2 pupur coch wedi'u darnio	
2 eirin gwlanog wedi'u sleisio	ychydig o ddail Coriander

Dull

1. Gosodwch y bulgur wheat mewn rhidyll (sieve), a golchwch dan ddŵr oer, cyn ei roi mewn sosban, a'i goginio am 20 munud mewn dwr cynnes.
2. Gosodwch y chilli, sbigoglys, shibwns a hanner y dail coriander mewn prosesydd bwyd, gyda'r olew a'r leim. Rhedwch y prosesydd nes ei fod yn bast, ac yna'i gymysgu i'r bulgur wheat.
3. Gosodwch mewn bocs picnic. Rhowch y pupur a'r eirin gwlanog dros y cyfan, a gweddill y dail coriander.

Pwdin Picnic

Crwst: 150g menynd	100g blawd plaen
100g blawd codi	100g siwgr mân
100g polenta	sest a sudd 1 oren
	1 wy
Llenwad: 350g llus	25g siwgr mân
2 llwy de polenta	ychydig siwgr Demerara

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C, a gorchuddiwch dun crwn 23cm â phapur gwrthsaim.
2. Gosodwch y cynhwysion sych mewn prosesydd bwyd, a'i redeg i greu briwsion ysgafn. Ychwanegwch y sest, sudd a'r wy i greu toes (bisgedi brau).
3. Gwasgwch ½ y gymysgedd ar hyd waelod y tun; ysgeintiwch y polenta, llus, a'r siwgr mân drosodd.
4. Rholiwch gweddill y toes a gosodwch dros yr wyneb a'i selio. Ysgeintiwch â'r siwgr Demerara.
5. Pobwch am 40-45 munud. Gadewch i oeri cyn ei becynnu i'r picnic.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

C.F.F.I. Ceredigion

Dyma grynodeb o brysurddeb y Mudiad am y mis diwethaf.

Cynhaliwyd cystadleuaeth colomennod clai y Sir gyda Saethwyr Camddwr yn Lledrod ar 19eg Mai lle daeth Bleddyn Thomas, Felinfach yn gyntaf dan 26 oed ac Aled Jones, Lledrod yn gyntaf dan 17 oed. Pob lwc iddynt pan fyddant yn cynrychioli Ceredigion yn Stafford ddiwedd mis Mehefin.

Cynhaliwyd Rali'r Sir eleni ar yr 2il o Fehefin ar Fferm Sychpant,

Talsarn drwy garedigrwydd teulu Davies a chynhaliwyd y ddawns ar fferm Rhiwonnien, Abermeurig drwy garedigrwydd Mr a Mrs Ceirian Jones. Roedd y tywydd o'n hochor a thrwy'r dydd gwelwyd amrywiaeth o gystadlaethau gyda dros 400 o aelodau'r Sir yn cystadlu. Lledrod ddaeth yn fuddugol a chlybiau Tregaron a Thalybont yn gydradd ail. Fyny Fry oedd thema'r Rali ac fe fydd yr enillwyr i gyd yn cynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol yn Llanellwedd yn mis Gorffennaf. Uchafbwynt y dydd oedd y seremoni goroni. Coronwyd Elin Haf Jones o glwb Llanwenog yn Frenhines y Sir gan Lywydd y Dydd, Mr Bryn Hughes, Cwmere, a chafodd Iwan Davies, Llanddewi Brefi ei anrhydeddu yn Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn ynghyd a'u dirprwyon Megan Jenkins, Llanddewi Brefi; Dyfan Ellis Jones, Llangwryfon; Lowri Pugh-Davies, Bro'r Dderi a Dyfrig Williams, Llangwryfon.

Dyma restr o'r enillwyr:

Arddangosfa Ffederasiwn - 1-Trisant; 2-Penparc; cydradd 3-Bryngwyn a Tregaron. **Barnu Gwartheg Holstein - 16 oed neu iau:** 1-Ieuan James, Troedraur; 2-Alun Humphreys; Tregaron 3-Steffan Parry, Pontsian; **21 oed neu iau** 1-Aron Dafydd, Bro'r Dderi cydradd 2-Glyn Hughes, Mydroilyn ac Eiry Williams, Llangwryfon; **26 oed neu iau** 1-Dafydd James, Troedraur; 2-Fflur Davies, Penparc; 3-Bleddyn Davies, Caerwedros; **Tîm buddugol** - 1-Troedraur; 2-Bro'r Dderi; 3-Pontsian. **Dylunio a chreu barcud** - 1-Caerwedros; 2-Talybont; 3-Bro'r Dderi. **Coginio** - 1-Calfin Hunt ac Aeron Gwynne, Llangwryfon; 2-Nia Morgans a Guto Ebbsworth, Llanwenog; 3 - Seren Pugh a Haf Evans, Talybont; **Gosod Blodau** - 1-Cari Davies, Tregaron; 2-Angharad Jones, Llanddewi Brefi; 3-Catrin Twigg, Penparc; **Creffft** - 1-Siwan George, Lledrod; 2-Carwyn Davies, Llanwenog; 3ydd-Gareth Jones, Tregaron. **Cystadleuaeth yr Aelodau** - 1-Tregaron; 2-Lledrod; 3-Llanddewi Brefi. **Dawnsio** - 1-Tregaron; 2-Mydroilyn; cydradd 3-Lledrod a Penparc. **Ar y Newyddion** - 1-Llangeitho; 2-Llanwenog; 3-Trisant. **Band Ailgylchu** - 1 - Bro'r Dderi; 2 - Penparc. **Coedwigaeth Hŷn** - 1-Llanddeiniol; 2-Caerwedros; 3-Penparc. **Coedwigaeth Iau** - 1-Llanddeiniol; 2-Penparc; 3-Lledrod. **Barnu Defaid Mynydd Duon Cymreig - 16 oed neu iau** - 1-Hedd Dafydd, Llangwryfon; 2-Lisa Bulman, Llanddewi Brefi; 3-Ynry Siencyn, Talybont; **21 oed neu iau** - 1-Gwenno



Band Ailgylchu Bro'r Dderi. Elliw ac Ifan yn casglu'r cwpan.



Lois a Hafwen, Llanwenog - Gwisgo i Fyny 2il.



Evans, Talybont; 2-Gwion Morgan, Penparc; 3-Richard Downes, Llangwryfon; **26 oed neu iau** - 1-Dewi Jenkins, Talybont; 2-Gwenllian Evans, Llanddewi Brefi; cydradd 3-Elan Davies, Llanddewi Brefi a Lowri Jones, Lledrod; **Tîm buddugol** - 1-Talybont; 2-Llangeitho; 3-Llanddewi Brefi. **Trin Gwlân** - 1-Llŷr Evans, Lledrod; 2-Angharad Davies, Pontsian; 3-Bedwyr Siencyn, Talybont. **Gêm y Cenedlaethau** - 1-Llanddeiniol; 2-Dihewyd; 3-Tregaron. **Gwisgo Fyny** - 1-Trisant; 2-Llanwenog; 3-Llangeitho. **Canu** - 1-Caerwedros; 2-Talybont; 3-Llanddewi Brefi; **Unigol** - 1-Beca Williams, Talybont; 2-Elain Davies, Caerwedros; 3-Iwan Davies, Llanddewi Brefi; **Grŵp** - 1-Caerwedros; 2-Talybont; 3-Llanwenog.

Cneifio Defaid - 21 oed neu iau - 1-Rhys Douglas, Bro'r

Dderi; 2-Gethin Thomas, Tregaron; 3-Dion Hughes, Mydroilyn; **26 oed neu iau** - 1-Steffan Jenkins, Llanwenog; 2-Llŷr Evans, Lledrod; 3- Dewi Jenkins, Talybont; **Tîm** - 1-Tregaron; 2-Lledrod; 3-Mydroilyn. **Barnu Moch Cymreig - 16 oed neu iau** - 1-Llŷr Davies, Llangwryfon; 2-Ifan Davies, Llanddeiniol; 3-Ynry Siencyn, Talybont; **21 oed neu iau** - 1-Bedwyr Siencyn, Talybont; 2-Sioned Evans, Llanddewi Brefi; 3-Rebecca Reed, Penparc; **26 oed neu iau** - 1-Dewi Jenkins, Talybont; 2-Gethin Hughes, Llanddeiniol; 3-Liz Harries, Pontsian; **Tîm** - 1-Talybont; 2-Llanddeiniol; 3-Llanddewi Brefi. **Hyrwyddo Clwb** - 1-Mydroilyn; 2-Llanddewi Brefi; 3-Llangwryfon. **Arddangosfa'r Prif Gylch** - 1-Talybont; 2-Llanwenog; 3-Llanddewi Brefi. **Tablo** - 1-Trisant; 2-Tregaron; 3-Lledrod; **Tynnu'r Gelyn** - **Iau** - 1- Lledrod cymysg; 2- Felinfach; 3-Llanddewi Brefi. **Tynnu'r Gelyn** - **Merched** - Llanddewi Brefi; 2-Tim Cymysg. **Tynnu'r Gelyn** - **Bechgyn** - Llanddewi Brefi; 2 - Tim Cymysg. **Gwneud Arwydd:** 1-Llanwenog;



2-Felinfach; 3-Pontsian. **Barnu Stoc - Unigolyn Uchaf 16 oed neu iau** - Hedd Dafydd, Llangwryfon; **Unigolyn Uchaf 21 oed neu iau** - Aron Dafydd, Bro'r Dderi [llun ar y chwith] **Unigolyn Uchaf 26 oed neu iau** - Dafydd James, Troedraur; **Unigolyn Uchaf yn Barnu Gwartheg** - Dafydd James, Troedraur; **Unigolyn Gorau am y rhesymau yng Nghymraeg** - Gwenno Evans, Talybont; **Clwb Gorau yn y Barnu Stoc** - 1-

Talybont; 2- Llanddewi Brefi; 3-Tregaron.

Ffermwr Gorau'r Flwyddyn - Elin Haf Jones: Llanwenog ac Iwan Davies, Llanddewi Brefi. **Anrheg Goffa W.G. Hughes a W.D. Lewis** - Esyllt Ellis Jones, Llangwryfon a Morys Ioan, Caerwedros. **Ysgrifennydd Clwb Gorau** - Angharad Evans, Mydroilyn. **Aelod a dreuliodd yr amser Hiraf ar daith gyfnewid** - Aled Davies, Caerwedros. **Aelod Mwyaf Gweithgar** - Angela Evans, Tregaron. **Aelod Iau Mwyaf Gweithgar** - Alaw Fflur Jones, Felinfach. **Clwb Gorau yng Nghystadlaethau'r Sir 2017-2018** - 1-Felinfach; 2-Llanwenog; 3 - Mydroilyn. **Clwb Bychan Gorau yng Nghystadlaethau 2017-2018** - 1- Llanddeiniol; 2-Lledrod; 3 - Bro'r Dderi.



Canlyniadau terfynol - 1af - Lledrod; cydradd 2il - Talybont a Tregaron; 4ydd - Llanddeiniol; 5ed - Llanddewi Brefi; 6ed - Llanwenog; 7fed - Trisant; 8fed - Mydroilyn; 9fed - Llangwryfon; 10fed - Penparc.

I orffen y diwrnod cafwyd dawns gyda'r Welsh Whisperer a Band Tom Collins yn diddanu'r aelodau. I gloi y penwythnos prysur, cynhaliwyd Gymanfa Ganu yng Nghapel Tabernacl, Aberaeron nos Sul dan arweiniad medrus Carys Lewis a Siw Jones, ac Alwena Lloyd Williams a Bryan Jones yn cyfeilio. Artistiaid y noson oedd aelodau C.F.F.I. Felinfach, Ysgolion Cynradd Felinfach, Ciliau Parc a Cilcennin. Llywydd y noson oedd Mrs Angela Rogers Davies, Maesmynach, Cribyn.

Pob lwc i bawb fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe yn Llanellwedd.

Aeth staff a swyddogion y Sir â stondin i Sioe Aberystwyth i hybu gwaith y Mudiad. Yn ystod yr haf byddwn yn ymweld â dwy Sioe arall yng Ngheredigion.

Enillwyr Clwb 200 Mis Mehefin

- 1 - Arwyn a Heledd Williams, Llys y Gan, Derwen Gam, Llanarth
- 2 - David a Jayne Jones, Pantlleiniau, Bontnewydd, Aberystwyth
- 3 - Dafydd a Delyth Lloyd-Jones, Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi, Tregaron

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Dyddiadau i'ch dyddiadur

23-26ain o Orffennaf – Sioe Frenhinol. 1af o Awst - Treialon Cŵn Defaid (adran C.Ff.I.) - Talybont. 29/30ain o Awst - Cwrs Swyddogion. 5ed o Fedi - Pwyllgorau Sirol. 8fed o Fedi - Gig Ola'r Ha' - Pafilwn Ponrhydfendigaid. 21/22ain o Fedi - Diwrnod Allan ar y Fferm, Llanerchaeron.

CFFI Sir Gâr

Yn ddiweddar mae Swyddogion y Mudiad yn y Sir wedi bod wrthi'n codi arian ar gyfer elusen sy'n agos iawn i'n calonnau yn Sir Gâr, y Gymdeithas CGD sef elusen sy'n codi arian ar gyfer unigolion sy'n dioddef o afiechyd 'chronic granulomatous'. Cyn y Nadolig, bu farw un o'n haelodau yn y Sir, Nia Wyn Thomas oedd yn aelod yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Llangadog ac roedd y Swyddogion a'r Aelodau'n awyddus i godi arian er cof am aelod gwerthfawr a brwdfrydig.

Ar Nos Sadwrn, 7fed Ebrill 2018 cynhaliodd y Llysgenhaddon, Gwenann Jones (Dyffryn Tywi), Siôn Evans (Llanllwni), Sian Williams (Llangadog) ac Aled Thomas (Dyffryn Cothi) noson o hwyl a gemau yng nghwmni'r cyflwynydd poblogaidd Tommo yn Neuadd Bronwydd. Daeth pob Clwb yn y Sir â thîm i gymryd rhan yn y gemau ar y noson a chafwyd noson wych o hwyl a gemau dwl. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn ac aelodau o ar draws Sir Gâr yn mwynhau'r cymdeithasu gan gofio pwrpas y noson hefyd.

Aeth Cadeirydd y Sir, Marek Williams ati i drefnu Raffl Fawreddog a chafwyd cyfraniadau hael gan gwmnïoedd lleol fel gwobrau. Diolch iddynt am eu haelioni a'u cefnogaeth. Cyhoeddwyd canlyniadau'r Raffl ar ddiwrnod y Rali flynyddol ym mis Mai a dyma'r rhai ffodus a dderbyniodd wobr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

1. Taleb £100 (Lan Llofft, Llambled) - Meryl Thomas, Nantgwynne, Llangadog
 2. Aros dros nos (Cawdors, Llandeilo) - Emlyn a Mair Morgan, Tyngarn, Myddfai
 3. Dau docyn i'r Ffair Wanwyn - Heledd Jones, CFFI Dyffryn Tywi
 4. Crys Scarlets (Wyn Jones) - Menna Jones, Olchfa, Llangadog
 5. Cinio Dydd Sul yn St Brides (Meirion Owen) - Heulwen Jones, Clynmawr, Rhandir-mwyn
 6. £50 (Cyfreithwyr Llyscennen) - Ian Jones, Ffosygest, Peniel
 7. Pryd o fwyd yn Valans, Llandybie (Ashmole) - Nia Jones, Llaindelyn, Bryniwan
 8. Taleb Cig £50 (John a Hazel James, Tyllwyd) - Meinir Thomas, Blaencwm, Llansadwrn
 9. Mwclys Arian (Luned Henry, Gemwaith Defana) - Hughes, Godregarreg, Llangadog
 10. Dau Docyn Mynediad (Folly Farm) - Sioned Fflur Davies, Tremyrafon, Llanybydder
 11. Triniaeth Harddwch (Sukar, Caerfyrddin) - Owain Jones, Maesyderi, Ffair-fach
 12. Te Prynhawn i ddau (Plough, Rhosmaen) - Betty Jones, Broad Oak
- Trefnwyd hefyd Cymanfa Ganu gan y Cadeirydd Sir, Marek Williams ar Nos Sul Mehefin 3ydd yng Nghapel Soar Tynewydd, Cil-y-cwm gydag eitemau gan aelodau o Fudiad C.Ff.I. Sir Gâr. Cafwyd neges bwrpasol gan Mr Peter Harries a Miss Sara Morgan oedd yn canu'r organ.



Cafodd nifer o Swyddogion y Sir y cyfle i arwain y canu, felly cofiwch amdanynt os ydych chi'n chwilio am arweinydd y gân yn y dyfodol! Diolch i Marek Williams, Carys Thomas, Caryl Jones, Sian Elin Williams, Sian Williams, Heledd Jones ac Arwyn Davies. Roedd casgliad y noson yn cael ei rannu rhwng elusen y CGD Society a hefyd Cronfa Ffrindiau Ysbyty Llanymddyfri. Casglwyd swm arbennig ar y noson a diolch i bawb a fynychodd ac a gymerodd ran ar noson arbennig a safonol.

Braf yw cyhoeddi ein bod wedi codi dros £5,000 ar gyfer elusen y CGD Society ynghyd â £500 ar gyfer Cronfa Ysbyty Llanymddyfri. Diolch yn fawr iawn i'r holl gwmnïoedd, ffrindiau ac aelodau am bob rhodd ac am bob cefnogaeth, a hefyd i deulu Nia am gefnogi'n digwyddiadau.

Rydym yn dal i dderbyn cyfraniadau, felly os hoffech gefnogi'r elusennau mae croeso i chi gysylltu â Swyddfa'r Sir am fwy o wybodaeth: 01267 237 693 neu sir.gar@yfc-wales.org.uk.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Darteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

The Wash Tub

Heol y Gogledd (gyferbyn â'r gofologfn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel: smwddio, golchi, sychu ac yn golchi duvets. Sychlanhau ar y safle.



Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mac Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776 neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



COFIWCH dalu

£5 CLWB CLONC

£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn Papur Bro Clonc. Beth am ei brynu fel anrheg?

Cysylltwch â Mary Davies, Ysgrifenyddes Clonc

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Dawn's WELSH GIFTS
2 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan

T: 01570 423884

e.dawnsemporium@gmail.com

S: 07900 370537

f.dawnswelshgifts

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambled Ffôn: 423300 Ffacs: 423223 mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini gysurus Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partïon pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach



Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â: Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Llongyfarchiadau i Elaine Fflur Williams o Ysgol Bro Pedr, Llambod sydd wedi ennill gliniadur Dell mewn cystadleuaeth TGCh i ddisgyblion ar draws ysgolion Ceredigion. Enillwyd y gystadleuaeth am ei sgiliau Graffigol TGCh a chafodd ei henwebu, fel nifer eraill, gan ei hathrawes Mrs Beaumont. Llongyfarchiadau mawr wrth Dad a Mam.

Ysgol Bro Pedr

Cafwyd diwrnod braf o gystadlu brwd ym mabolgampau'r ysgol gyda'r disgyblion yn cael cyfle i gwblhau amryw o weithgareddau megis rasio, taflu gwaywffon, taflu pêl, naid uchel a naid hir, i enwi ond ychydig. Diolch i Marc Griffiths am ein tywys mor gelfydd drwy gydol y dydd gan sicrhau bod rhieni hefyd yn medru clywed y canlyniadau o gartref. Ar ddiwedd diwrnod o gystadlu brwd Pedr oedd ar y brig, Dewi'n ail a Steffan yn drydydd. Llongyfarchiadau mawr i Molly a Rory am ennill Mabolgampwr a Mabolgampwraig y flwyddyn am yr unigolion uchaf ei marciau a diolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith paratoi ac i Mr John am gydlynw'r cyfan mor effeithiol.



Capteiniaid y Cyfnod Sylfaen Bro Pedr yn derbyn bathodynau yn y Mabolgampau gyda Pedr yn ennill.



Capteiniaid ac is-gapteiniaid Tŷ Pedr Ysgol Bro Pedr yn derbyn y darian am ennill y Mabolgampau.



Capteiniaid ac is-gapteiniaid Ysgol Bro Pedr yn y mabolgampau yn derbyn bathodynau - Pedr yn ennill, Dewi'n ail a Steffan yn drydydd.



Tîm Ysgol Bro Pedr yn dod yn 2il yn Nhwrnament Pêl-droed Henry Richard.



Tîm Bl. 3 a 4 Ysgol Bro Pedr yn rhannu'r wobr gyntaf gyda Ysgol Carreg Hirfaen yn y Twrnament Pêl-droed.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn mwynhau profiadau anturiaethau awyr agored megis canwio, abseilio, dringo saethyddiaeth am wythnos ym Mhentywyn a diolch i bob aelod o staff a wnaeth roi o'u hamser i oruchwyllo'r plant.

Mae Tomos Lloyd Jones a Charlotte Finch yn brysur yn ymarfer ar gyfer cyngerdd cerddorfa'r Prom Ceredigion a Sara Jones, Leah Regan, Molly Burgess, Ceris Jones a Lizzie Lomas yn ymarfer ar gyfer perfformio gyda chôr y sir – da iawn chi i gyd.

Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn brysur yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth "Mae gan Fro Pedr dalent" er mwyn codi arian at deithiau Cerys gyda cherddorfa Prydain.

Bu disgyblion bl 1 a 2 yn mwynhau ar draeth Aberporth fel rhan o thema'r tymor a chafwyd cyfle i adeiladu cestyll tywod, i chwilio am greaduriaid a chregyn ac i fwyta sglodion blasus amser cinio. Diolch i'r staff i gyd am oruchwyllo ac i Mrs Young am drefnu.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gyfle i fwynhau gyda disgyblion eraill y cylch mewn Gŵyl Chwaraeon a gynhaliwyd yn Llambod.

Bu'r Heddlu, cynrychiolaeth o'r Cynulliad, y Frigad Dân, Nyrs ysgol ymhlith gweithdai eraill yn gwneud sesiynau Addysg Bersonol a Chymdeithasol gyda disgyblion blynyddoedd 3 4 5 a 6. Diolch i Mrs Beaumont am drefnu ac i bawb a fu'n cynnal sesiynau a oedd yn fuddiol tu hwnt i'r disgyblion.

Cafwyd llwyddiant yn nhwrnamentt pêl-droed Carreg Hirfaen – gwnaeth tîm bechgyn blynyddoedd 3 a 4 rannu'r gwpan wedi iddynt orffen yn gyfartal ar ôl chwarae gem gyffrous iawn a chael amser ychwanegol. Llwyddodd tîm bechgyn bl 5 a 6 hefyd i ennill eu cystadleuaeth hwy a gwnaeth y merched yn arbennig o ddau yn ennill dwy gem a cholli un.

Yn nhwrnament Henry Richard gwnaeth tîm y bechgyn ddod yn ail a'r merched yn gwneud argraff dda hefyd – da iawn i chi i gyd. Diolch i'r staff a fu'n cynorthwyo ac hyfforddi ar y ddwy noson.

Llongyfarchiadau mawr i Geraint Thomas a Nia Davies ar enedigaeth merch fach sef Mali Wyn a phob dymuniad da iddynt fel teulu.

Diolch i Mr Clark am ei gyfraniad gwerthfawr i'r ysgol a phob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

Cafwyd neges bwrpasol ac effeithiol iawn gan Mr Patterson a Miss Sarah yn ystod gwasanaeth boreuol am Iesu'n iachau'r dyn oedd wedi ei barlysu. Diolch iddynt am ddod atom.

Pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn symud i flwyddyn 7 yn mis Medi a chofiwch alw yn ôl i'n gweld.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: David Heath
Oed: 25
Pentref: Llambled
Gwaith: Reparo peips dŵr gyda J.D.Evans Ltd
Partner: Sioned Owens
Teulu: Mam, Dad a fy mrawd John

Unrhyw hoff atgof plentynod.
Treulio amser lan ar Fferm Cwmhendryd gyda Mamgu Cwm. Joio'r rhyddid o fod allan ar y fferm yn nghanol yr anifeiliaid a'r dom! O'n i a Caryl Cwm yn cael 'house swap' yn aml – Caryl lawr i Pontfaen at Mam, a finne'n mynd lan i Cwmhendryd i gal fy sboilo gyda Mamgu Cwm. Fel plentyn, o'n i ddim yn dwp chwaith, gyda Mamgu Cwm o'dd y bwyd gorau!!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Sam Tân wrth gwrs!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I dweud Diolch a bod yn gwrtais bob tro (Neu bonclust wrth Dad bydde hi!!) Jôc – mae'n costi dim i fod yn gwrtais.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Cymer gan bwyll – does dim hast! A hefyd, cer i'r coleg a dysga grefft. Bydd e gyda ti am byth.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Dyn Tân – fel Sam Tân wrth gwrs. Mae hyn yn rhywbeth dwi eisiau gyflawni o hyd – un diwrnod gobeithio!

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Dim byd – dwi wastad yn gwd-boi!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gyda criw C.Ff.I – Joio mynd pob nos Lun i gwrdd â phawb a chymryd rhan mewn pob math o weithgareddau. Mae'r mudiad wedi rhoi hyder i fi a ffrindiau am oes.

Beth yw dy lysenw?
Dai, Dai Noodles, Dai Dŵr, Heath neu Dafydd (fel ma Mamgu Sioned yn galw fi). Sneb yn galw fi'n David yn amal iawn (er, pan ma Sioned yn gweud David fi'n gwbod bod fi yn y bad books!)

Taset ti'n fised, pa fath fyddet ti a pham?
Chocolate Dai-gestive! Ychydig mwy moethus na'r Dai-gestive cyffredin!!

Beth yw dy arbenigedd?



Reparo peips dŵr – joio bod yn bach o gowboi!

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Bod tu-allan (ym mhob tywydd). Gweld ardaloedd newydd bob dydd – dwi di bod yn bob twll a chornel Ceredigion a Sir Gâr credwch chi fi! A hefyd y cyfle i gwrdd â phobl newydd (dwi di gweld pob fath o rheini hefyd!)

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Y busnes 'on-call' – y peth gwaethaf pan mae'r bois mas am gwpwl o beints a dwi allan yn gweithio.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg bob tro – dyw'r Saesneg ddim yn dod yn naturiol iawn, er bod Mam yn dod o Loegr.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Ateb call – blaendal ar dŷ Ateb hwyl – tocyn i fynd i Seland Newydd neu Awstralia a falle tocyn i Sioned hefyd, os mae'n lwcus!

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl Dawns Rali Felinfach mis diwethaf – aeth hi'n noson go 'messy' gyda maint Cwpan Gwynne! Rhaid oedd dathlu mewn steil ar ôl yr holl waith caled i gynnal Rali lwyddiannus C.Ff.I Felinfach eleni. Wedi

cyrraedd adre, panic oedd hi pan oedd Huw (brawd Sioned) yn chwydu yn y toilet a finne'n gorfod rhedeg tu fas ... mess!!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Yn gwely gyda 3 arall mewn bwthyn gwylie yn Tregaron ar ôl ennill Rali C.Ff.I – na beth oedd moelad!

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?
Os bydde chi'n gofyn Mam – yn blentyn o'n i wastad yn borcyn (gwastraff amser oedd dillad). Wedi meddwl, credu ar lwyfan Hanner Awr Adloniant C.Ff.I Ceredigion oedd hi diwethaf yn perfformio gyda'r 'bongs' – o flaen Theatr llawn (o'n i ddim cweit yn borcyn peidwch becco!!)

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael fy nhrystio i fod yn Arweinydd Gang o fewn fy swydd bresennol.

Ac yn bersonol?
Yn Gadeirydd ar Glwb Ffermwyr Ifanc Felinfach wrth iddynt gynnal Rali C.Ff.I Ceredigion mis diwethaf. Er, sain ffan mowr o'r busnes siarad cyhoeddus ma.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Mae bywyd yn llawer rhy fyr i ddifaru.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cwrdd â Sioned – Duw a wŷr ble bydden i heddiw heblaw 'ny! Mae Dad yn gweud hyn wrtha i bob tro!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Tipyn o Foi!

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Pan ofynnais fy mab a merch bedydd (Gwenno ac Elis) yr ateb ges i oedd 'David sili' – dwi'n joio bach o sbort mewn bywyd, sdim pwynt cymryd popeth o ddifri.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Golf GTD – enw Sioned sydd ar y 'private-plate' ond fi sydd ar front end!!

Beth yw dy hoff adeilad?
Stadiwm Principality a Clwb Rygbi Llambled.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Dibynnu ar y whant – ond chinese yw'r number 1!

Beth yw dy ddiod arferol?
Eto'n dibynnu ar y whant a'r tywydd – ar hyn o bryd seidr ond sai'n fussy iawn!

Beth yw dy hoff arogl?
Cinio Dydd Sul – ma siŵr well gweud cinio dydd Sul Mamgu Sioned (ne ga'i row!)

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Y dyn ei hun – Ben Lake. Ffrind Ysgol – Ffrind Oes!

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Lluniau teuluol – enwedig lluniau o fy mrawd Aidran. Allwch chi byth ailosod lluniau.


Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Fy mrawd hynaf, y diweddar Aidran. Un arall oedd yn gweithio ar y peips dŵr, oedd e bendant yn y gwaed. Aeth fy mrawd trwy tipyn yn ifanc ond oedd yn ddylanwad mawr arnaf wrth iddo gario mlaen, gweithio'n galed a neud bywoliaeth dda iddo fe a'i deulu.

Y gwyliau gorau?
Sgïo nol yn mis Mawrth – y tro cyntaf i mi fynd a'n bendant y gwyliau gorau eto! Er, top tip i chi gyd – dyw sgïo ar tarmac ddim yn gwd idea! Ond ma honno'n stori arall...

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Caryl Mair Herrick, Llambled



Yn groes i ragdybiaeth ambell un efallai, y mae yna ddimensiwn tîm i redeg ac athletau ac fe'i gwelir ar ei fwyaf amlwg yn y ras gyfnewid lle mae rhaid i'r unigolion gyd-weithio a chyd-ymdrechu er lles y tîm. Yn sicr mae Ras Gyfnewid Cestyll Cymru yn enghraifft unigryw o hynny, ras flynyddol 209 milltir dros fryn a mynydd sy'n cynnwys 20 cymal (hynny yw 20 ras) yn cychwyn ger castell Caernarfon ar fore Sadwrn ac yn gorffen yng nghastell Caerdydd ar brynhawn dydd Sul. Cynhaliwyd y ras ar y 9fed a'r 10fed o Fehefin eleni ac yr oedd 67 o dimau o Gymru a Lloegr yn cystadlu gan gynnwys un o'r Iseldiroedd. Cynhaliwyd y deg cymal cyntaf i'r Drenwydd dan haul crasboeth ar y Sadwrn a doedd dim cuddio rhagddo drannoeth chwaith ar y deg cymal olaf. Tîm o 19 o ddynion ac un fenyw, sef Dee Jolly, oedd yn cynrychioli Clwb Sarn Helen eleni, yr ystod oedran yn ymestyn o 17 i 68. Hon oedd y 12fed tro i'r Clwb gystadlu ac am y tro cyntaf llwyddwyd i orffen yn y deg uchaf gan ddod yn 9fed mewn cyfanswm amser o 22 awr 51 munud a 56 eiliad (amser gorau'r Clwb o dipyn), ac yn 5ed ymhlith clybiau Cymru. Annheg fyddai sôn am unigolion ond cafwyd ymdrech arbennig gan Gareth Payne i ddod yn 4ydd yn ei gymal 10.6 milltir ef i Lanfair Ym Muallt [llun ar y dde]. Cafwyd llawer o aeddfedrwydd ar ran aelodau ieuangaf y tîm a llawer o ddyfalbarhad ar ran y rhai hŷn ac fe arweiniwyd y tîm yn gryf dros y llinell orffen yng Nghaerdydd gan Dee Jolly. Yr oedd y canlyniad yn wobwr haeddiannol i reolwyr profiadol y tîm, Lyn ac Eileen Rees. Yn anochel yr oedd rhai o sêr y



Clwb yn methu cystadlu eleni ond eto i gyd fe fydd angen llawer o lwc ac ymdrech i wella ar berfformiad eleni.

Ar y 17eg o Fehefin teithiodd pump o redwyr y Clwb i Wynedd i gymryd rhan yn Hanner Marathon Llwybr Cymru yng Nghoed y Brenin. Yn ôl ei harfer daeth Dawn Kenwright yn 1af yn nosbarth

y menywod dros 60 mewn 2 awr a 15 munud, a gwnaeth Tony Hall yn ardderchog i ddod yn 3ydd yn nosbarth y dynion dros 60 (1.59.) Daeth Dee Jolly yn 4ydd yn nosbarth agored y menywod (1.47) a chafwyd ymdrechion da dros gwrs anodd gan Mitchell Readwin (2.11) a Pamela Carter (2.27.)

Yn ôl ar y 9fed o Fai daeth gwobrau i nifer o redwyr y Clwb yn ras flynyddol Yr Hafod ym Mhontrhydygroes - Felipe Jones, Dylan Lewis a Gareth Payne oedd y tri cyntaf i orffen gyda Dee Jolly yn 1af ymhlith y menywod a Mick Taylor yn 1af dros 50 a Tony Hall yn 1af dros 60. Cipiodd Gwion Payne ac Alaw Jones y gwobrau cyntaf dros y Clwb yn y ras ieuencid hefyd.

Ar yr 28ain o Fai cynhaliwyd ras lwybr 4 milltir a hanner Penrhyn Dinas yn Sir Benfro am y nawfed tro ar hugain a bu nifer o redwyr y Clwb yno gan gynnwys yr enillydd, Felipe Jones. Glyn Price oedd yn 3ydd yn y ras ac yn 1af dros 50. Tony Hall oedd y 1af dros 60 a Tomos Morgans oedd y 1af dan 18. Unwaith eto Dee Jolly oedd y fenyw gyntaf i orffen.

Ar y 1af o Fehefin bu nifer o aelodau'r Clwb yn rhedeg ras 10 cilometr ym mharc Dinefwr ger Llandeilo gyda Ken Caulkett yn gorffen yn 5ed ac Eleri Rivers yn 9fed ymhlith y menywod.

Ar y 6ed o Fehefin cafwyd prawf fod Caryl Wyn Davies yn parhau i fynd o nerth i nerth wrth iddi ddod yn 18fed allan o gant mewn record bersonol am y pellter (19 munud a 57 eiliad) mewn ras heol 5 cilometr yn Rhaeadr.

Ar y 24ain o Fehefin fe redodd 9 o aelodau'r Clwb yn Hanner Marathon Abertawe. Gorffennodd y cystadleuydd prysur Ken Caulkett yn safle 42 mewn 1 awr 20 munud a 42 eiliad gyda George Eadon (1.32.27) David Thomas (1.49.00) a Martin Darby (1.56.18) yn dilyn. Daeth Delyth Crimes (1.53.27) o fewn 20 eiliad i record bersonol am y pellter a daeth Emma Davies (2.53.52) o fewn un eiliad i wneud hynny. Cafwyd ymdrechion da hefyd yng ngwres yr haul gan Jenny Caulkett (2.8.17) Nicola Davies (2.39.41) ac Emma Gray (2.38.17.)

Y mae diddordeb nifer o aelodau'r Clwb yn y treiatlhon yn parhau'n gryf. Doedd dim rhaid mynd ymhellach na phwll nofio Llanbed i gychwyn treiatlhon Campau Caron ar y 13eg o Fai gyda thaith i Dregaron ar y beic i ddilyn a ras fer ar droed yn Nhregaron i orffen. Ymhlith menywod y Clwb fe gwblhaodd Emma Gray ei treiatlhon gyntaf mewn 1 awr 31 munud a 49 eiliad a daeth Pamela Carter yn ail yn ei dosbarth (1.17.20.) Ymhlith y dynion daeth Eric Rees yn 3ydd (ail yn ei ddosbarth) mewn 58 munud a 2 eiliad ychydig o flaen ei frawd Dorian (1.1.50) gyda Kevin Hughes yn gorffen rhyngddynt (58.33). Aeth Eric a Dorian cyn belled â Chaer ar y 3ydd o Fehefin i gystadlu mewn treiatlhon fwy heriol gydag Eric yn dod yn 32ain yn ei ddosbarth mewn 5 awr a 27 munud a Dorian yn gorffen yn 31ain yn ei ddosbarth (5.44.) Bu Gareth Hodgson yn teithio'n bellach fyth i gystadlu ac yr oedd buddugoliaethau disglair yn ei ddisgwyl mewn dwy dreiatlhon pellter canol yn Grafham Water yn Huntingdon ar yr 20fed o Fai ac yna yn y Cotswolds ar y 10fed o Fehefin. Ond yr un a deithiodd y pellaf oll oedd Kevin Hughes a fu'n cystadlu mewn treiatlhon Iron Man go iawn yn Nice yn Ne Ffrainc ar y 24ain o Fehefin, diwrnod pan oedd tywydd y Riviera yn Llanbed a'r syniad o nofio a beicio am oriau ac yna rhedeg marathon yn llethu'r dychymyg. Yr oedd tipyn o law Llanbed yn Nice hefyd yn ôl y sôn ond llongyfarchiadau i Kevin ar orffen mewn 11 awr 41 munud a 11 eiliad - ei amser gorau am y cyfuniad tra heriol hyn o dasgau.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

Gwobr: Bag Siopa Clonc

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

		6		2	5
4		8			
7	2		1		6
			3		
7	6		5	1	4
			2		
3			6		9
				8	6
	1	6		5	

Swdocw Mehefin:

Llongyfarchiadau i: **John Bevan, Felinfach**, a diolch i bawb arall am gystadlu: Richard Evans, Olmarch; Avril Williams, Cwmann; Augusta Davies, Llanbed; Dai Jones, Alltyblaca; Joan Stacey, Ffaldybrenin ac Eurwyn Davies, Llanybydder.

2	6	4	7	9	8	5	3	1
5	9	7	3	4	1	2	8	6
1	8	3	5	6	2	9	7	4
3	7	2	1	8	6	4	5	9
6	5	1	9	7	4	3	2	8
9	4	8	2	3	5	1	6	7
8	1	5	4	2	7	6	9	3
4	3	6	8	5	9	7	1	2
7	2	9	6	1	3	8	4	5

Llangybi a Betws

Hamdden

Ar Fehefin 1af aeth Hamdden a'u ffrindiau ar eu trip blynyddol pryd y cafwyd diwrnod pleserus iawn a chwmni diddan yn ymweld â lleoedd o ddiddordeb yn Nyfed a chael pryd o fwyd yn y Moody Cow ar y ffordd adref.

Trefnwyd y trip gan Sally Davies a rhoddwyd y pleidlais o ddiolch gan Maisie Morgan. Enillwyd y raffl gan Tegwyn Cornelius, Kathleen Beardsmore, Bus Driver, Alunda Jones, Margaret Dyson, Peter Cornelius a Barbara Shaw.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Y Dderi ar Hydref 5ed am 2.00y.p. Croeso i aelodau newydd.

Golff



Llongyfarchiadau i Rhydian Quan ar gael 'hole in one' mewn cystadleuaeth yng Nghlwb Golff Penrhos yn ddiweddar. Dal ati Rhydian!

Maesyffynnon

Ar nos Sul Mehefin 17eg cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Maesyffynnon gyda Ffrindiau yn ein diddanu. Cawsom ganu bendigedig ac adroddiadau gwych. Roedd yn noson ragorol. Cyflwynwyd yr artistiaid gan Bronwen Morgan. Noson hyfryd ac i'w chofio.

Cadeirydd y noson oedd y Parch Stephen Morgan – un â hen gysylltiadau â'r capel ac sydd yn dal i gynorthwyo ar amryw achlysuron a gwerthfawrogi ei wasanaeth a'i

gyfraniad mewn llawer modd gan yr aelodau. Trefnwyd y noson gan Mair Morgan a llywydd y nos oedd Sally Davies ac fe dalwyd y diolchiadau gan Mair Spate.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Fehefin 20fed dan lywyddiaeth Gwyneth Jones. Cydymdeimlwn â Gwyneth Evans yn ei phrofedigaeth ar farwolaeth ei brawd. Dymunwyd adferiad buan i rhai a fu ac sydd yn sâl. Rhoddwyd y Raffl gan Eleanor Evans ac fe'i henillwyd gan Deborah Jones. Treuliwyd y noson yn ceisio trefnu rhaglen ar gyfer y tymor nesaf.

Pen-blwydd

Dymunir pen-blwydd hapus i Mrs Ann Davies yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis yma. Mwynhewch eich diwrnod.

Hefyd, llongyfarchiadau mawr i Dilys Evans, 6 Godre'r Coed ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus iawn iddi.

Ysgol Y Dderi

Bu blwyddyn 3 a 4 yn mwynhau chwilota am greaduriaid dŵr croyw yn Nant Hathren fel rhan o'u thema. Cafwyd diwrnod bendigedig yn dysgu yn yr awyr agored.

Treuliodd plant blwyddyn 6 wythnos yng nghwmni Ysgol Dalby, Denmarc. Cafwyd hwyl a llawer o brofiadau gwerth chweil.

Da iawn i dimau pêl-droed yr ysgol a fu'n cystadlu'n ddiweddar yn nhwrnamaint Carreg Hirfaen. Llwyddodd y bechgyn i gyrraedd y ffeinal a'r merched i'r rowndiau cyn-derfynol.

Braf oedd cael croesawu Tudur ac Anni Llŷn i'r ysgol. Prif nod y sesiynau oedd barddoni a datblygu sgiliau closio. Roedd y plant wedi mwynhau yn eu cwmni ac wedi elwa'n fawr o'u profiad.

Fel rhan o waith thema blwyddyn 5 a 6 'Enwogion o fri', aeth y dosbarth ar daith i Sir Benfro i ddysgu am hanes Merched Beca. Diolch i Mr Emyr Phillips am rannu ei arbenigedd gyda'r plant.

Diolch i Gwenllian Beynon am gynnal gweithdy celf gyda



'Archarwyr' oedd thema'r Cyfnod Sylfaen ac fel uchafbwynt i'r gwaith, cynhaliwyd 'Diwrnod Archarwyr' lle wisgodd y plant i fyny fel eu hoff archarwyr a threfnwyd nifer o weithgareddau hwylus.



Cynhaliwyd ein mabolgampau blynyddol ar Fehefin 6ed. Braf oedd gweld y disgyblion yn cystadlu ac yn mwynhau eu hunain ar ddiwrnod mor braf. Llongyfarchiadau i bawb.

disgyblion blwyddyn 3 a 4. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Llongyfarchiadau i holl enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd dros Geredigion ac yn genedlaethol. Canlyniadau campus! Yn ogystal, enillwyd y gystadleuaeth creu ap a ddaeth y wefan yn ail.

Treuliodd blwyddyn 4 tridiau yng Ngwersyll Glanllyn. Cafodd y plant gyfle i ymweld â Byd Mary Jones, cartref Hedd Wyn, hwylio ar Lyn Tegid yn ogystal â nifer o weithgareddau hwylus eraill.

Aeth pedwar o ddisgyblion blwyddyn 6 i Norwy am wythnos fel rhan o'n prosiect rhyngwladol, Erasmws. Bu'r plant yn mynychu

gwersi gyda'u ffrindiau newydd ac maent wedi elwa o'r holl brofiadau.

Da iawn disgyblion blwyddyn 6, sydd wedi dilyn hyfforddiant seiclo ar y ffordd. Llwyddodd pawb i ddysgu sut i fod yn ddiogel ar y ffordd. Derbyniwyd tystysgrifau oddi wrth Cyngor Sir Ceredigion.

Rhifyn Medi

yn y Siopau

6 Medi

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

27 Awst

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpll.com

true potential
wealth management



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
 Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
 Maintenance • Breakdowns
 Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
 d.doughtyplumbing@gmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
 Torri cloddiau • Plygu cloddiau
 Wedi yswirio'n llawn
 Dyfynbris am ddim
 Coed tân ar werth

Lyn Davies
 01239 851001 / 07796 682448

E. JONES
 PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108
 07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk

GWASANAETHAU YSWIRIANT
FUW

Mwy na brocer yswiriant.
 Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
 Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW
 21 Stryd Fawr, Llanbedd
 Ceredigion, SA48 7BG
 Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
 Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
 "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

PHILIP JONES
 FINANCIAL SOLUTIONS

Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
 & Busnes • Offer Amaethyddol
 ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
 Masnachol • Cyfleusterau
 Amddiffiniad Offer Newydd a
 Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
 07757 668339 / 01544 340562
 bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
 www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
 Financial Conduct Authority No FRN 690293

Clwb Clonc

Gorffennaf
£50 rhif 503 :
 Alun Williams,
 Rhydlydan, Pumsaint.
£50 rhif 450 :
 Dewi Thomas,
 Blaencwmdu, Llanllwni.
£25 rhif 28 :
 Lyn Davies,
 Madryn, Heol Fictoria,
 Aberaeron.
£25 rhif 31 :
 Mrs Eifionwy Davies,
 Cilmeri, Cwmsychpant.
£20 rhif 17 :
 Mrs Mary Davies,
 Maesnewydd, Rhydowen.
£20 rhif 357 :
 Chris Lloyd,
 7 Heol Hathren, Cwmann.
£15 rhif 54 :
 Mrs Sallie Davies,
 Maes, Llanllwni.
£15 rhif 509 :
 Eifion Williams,
 Bryn-y-Wawr, Cwmann.
£10 rhif 320 :
 Gwennllian Jones,
 Croesor, Cwmann.
£10 rhif 47 :
 Mrs Beryl Davies,
 Awel-Dêg, Heol Cambrian,
 Llambled.
£10 rhif 41 :
 Mrs Mair Davies,
 Abercwm, Llanllwni.
£10 rhif 53 :
 Mrs Sallie Davies,
 Maes, Llanllwni.
£10 rhif 79 :
 Teulu Gwarffynnon,
 Silian, Llambled.
£10 rhif 467 :
 Mrs Anne Thomas,
 Milford, Cwrtnewydd.
£5 rhif 351 :
 Gwynfor Lewis,
 Bronwydd, Heol-y-Bont,
 Llambled.
£5 rhif 278 :
 Ann Jones,
 Clifton, Pencader.

Lifestyle Kitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
 WELY WEDI'U FFITIO,
 ATEGOLION CEGIN,
 CYFARPAR TRYDAN,
 TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
 LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Adloniant gan Rhian Dafydd 

Mae gweithio yn Theatr Felinfach fel bod ar 'rollercoaster' parhaol. Mae cyfnodau sy'n ddwys o ran prysurdeb yna ceir rhyw orig fach i ddal ein gwynt cyn symud 'mlaen i'r peth nesaf! Fel hyn mae wedi bod ers dechrau'r flwyddyn.

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Dwynwen, Pennaeth y Theatr ac Owen ei gŵr ar ddod yn rhieni i Elena a Morgan. Newyddion bendigedig, ac rydym wedi cael cyfle i'w croesawu yma fel teulu nifer o weithiau erbyn hyn wrth iddynt ddod i sesiynau TicToc ar foreau Gwener. Dymuniadau gorau a phob bendith i chi gyd.

Mae'r rhaglen broffesiynol wedi bod yn brysyr iawn ers dechrau'r flwyddyn gyda chyngerdd Tra bo Dau yng nghwmni Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies, Dilwyn Morgan yn arwain a Menna Griffiths yn cyfeilio, gydag eitemau gan blant Ysgolion Cynradd Aberaeron a Felinfach. Roedd y Theatr dan ei sang unwaith eto mewn noson o godi'r to!

Rydym hefyd wedi cael nifer o ddramâu gwerth chweil i blant - Wŷ, Chips a Nain, Cwmni'r Frân Wen. Roedd y sgript yn dathlu dychymyg plentyn, gan archwilio'r berthynas arbennig rhwng dwy genhedlaeth, a sut mae dementia yn effeithio ar y berthynas hon dros amser. Yna sioe Na, Nel! gan Gwmni Theatr Arad Goch a agorodd yn Theatr Felinfach cyn mynd ar daith ledled Cymru. Wedi ei seilio ar gymeriad direidus cyfres lyfrau Meleri Wyn James. I oedolion, cafwyd cynrychiadau Y Tad ac Estron gan Theatr Genedlaethol Cymru - dramâu dirdynol ac emosiynol, cafwyd ychydig o gomedi yng nghwmni Noel James a'r Welsh Whisperer, a noson o gabaret gyda Sorela, Maggi Noggi ac eraill.

Mae'n rhaglen gymunedol a chyfranogol hefyd wedi bod yr un mor brysyr gyda'r Pantomeim Saesneg - 'Puss in Boots', Cystadleuaeth Pantomeim Clybiau Ffermwyr Ifanc y Sir, Eisteddfod Gylch Aeron, Cynhyrchiad Cwmni Dawns Iau a Ieuenctid Ceredigion - O Dan y Môr a'i Donnau, Cynhyrchiad Ysgol Theatr Maldwyn o'r Cylch, Dathliadau 50 Mlynedd Y Panto ac rydym wedi cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd i'r ddau ddatliad Deucanmlwyddiant - Glaniad y Cenhaden o Neuadd Lwyd i Fadagascar ac ymfudiad 6 teulu o Sir Aberteifi i ardal Oak Hill yn Ohio.

Ar 23ain o Ebrill, cychwynnodd Sioned Haf Thomas yn ei swydd fel Swyddog Creadigol (dros dro). Mae Sioned yn wyneb cyfarwydd iawn yn Theatr Felinfach ac wedi cydweithio gyda ni amryw o weithiau dros y blynnydd yn ogystal â bod yn aelod gwerthfawr o gast y Pantomeim blynnyddol. Croeso i'r tîm unwaith yn rhagor Sioned. Mae'n braf dy gael di nôl!

Buom yn ddigon ffodus i dderbyn grant gan Age Cymru unwaith yn rhagor eleni ac ar y 9fed a'r 16eg o Fai, buom yn dathlu creadigrwydd ymysg pobl hŷn fel rhan o'r Wyl. Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Llanarth a chyfranogwyr grŵp diwylliannol a chymdeithasol y Theatr, sef criw 'Hwyl a Hamdden' yn creu Bocs Atgofion i dathlu iechyd a lles. Rheolir Gŵyl y Gwanwyn gan Age Cymru, y brif elusen i bobl hŷn dros 50 oed yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfleoedd i bobl hŷn gymryd mwy o ran yn y celfyddydau.

Ar Ddydd Sadwrn, 12fed Mai cynhaliwyd diwrnod o hel atgofion yn storïau, lluniau a chlipiau fideo. Diwrnod anffurfiol o bori trwy hen luniau, sganio ac ychwanegu at y casgliad oedd gennym yn barod, mwynhau sgwrs gyda hwn a'r llall dros baned a chacen ac edrych 'mlaen at noson y dathliad a gynhaliwyd ar Nos Wener, 25ain Mai.

Roedd 'na hwyl! Roedd 'na lond bol o chwerthin! Roedd yn banto ynddo'i hun! Roedd yn gyfle i nodi'r achlysur hanesyddol yn hanes Cwmni Actorion Theatr Felinfach ac yn hanes y ddrama Gymreig yng nghefn gwlad Ceredigion. Daeth actorion presennol, cyn actorion, criw cefn llwyfan, criw creu set/props, technegwyr goleuo a sain, gwisgoedd, aelodau o'r gynulleidfa ffyddlon a ffrindiau i ymuno yn y noson. Cafwyd cacen a bybls ac fe wnaeth pawb joio! Diolch enfawr i Euros Lewis am ei gymorth yn paratoi'r clipiau ffilm o'r pantomeimiau dros y blynnydd a chydlynu'r cyfan. Mae digon o ddeunydd yn y stôr i gynnal sawl noson debyg eto ar themâu penodol.

Cynhelir 4 sesiwn TicToc yn Ysgol Gynradd Aberaeron yn cychwyn ar 20/6/18 10yb. Sesiwn stori, dawns a chên yw TicToc i blant bach 0-3 oed a'u rhieni/gwarcheidwaid.

Fel rhan o Siarter Iaith Ysgolion Ceredigion, rydym wedi bod yn cydweithio gydag Ysgol Gynradd Llanarth i ddatblygu bwrlwm o sesiynau creadigol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion yn barhaol gan gynnig rhaglen addysgiadol anffurfiol trwy gyfrwng drama a/neu ddawns. Pwy sydd wedi clywed am hanes cloch Eglwys Llanarth, y Brenin Ina a Siani Pob Man? Byddwn yn dathlu penllanw'r sesiynau wythnosol yma gyda pherfformiad yn Neuadd Bentref Llanarth ar y 9fed o Orffennaf.

Hefyd ar Nos Sadwrn, 14eg o Orffennaf bydd aelodau Ysgol Berfformio Theatr Felinfach yn cyflwyno sioe gerdd 'Syrrffio ar y Sgwâr' a gomisiynwyd yn wreiddiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanbedr Pont Steffan a'r fro ym 1999. Dewch i gwrdd â Zara Zappa, perchennog siop gemau cyfrifiadurol Y Sgrin Swynol a Llew Llyfre perchennog siop Llyfre Lledrithiol yn ogystal â Strab a Haden! Brwydr rhwng technoleg a llyfrau. Pa weithgaredd fydd yn ennill y dydd? Dewch i'r sioe i ganfod yr ateb! Tocynnu ar werth nawr - £8 / £7 / £6.

Oes angen cyngor arnoch?

Mac gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi

Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

TEIARS
BREGS
BATRIS
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mwnici ffwnici



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnici@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Lle aeth Llambled?

Ddiwedd y mis diwetha', roedd yna adroddiad yn dweud mai Casnewydd yn ne Cymru oedd y ddinas waetha' trwy wledydd Prydain am siopau gwag.

Delio gyda dinasoedd yr oedd yr adroddiad hwnnw; petai'n ymwneud â threfi, efallai y byddai'r arolygwyr wedi dod am dro i Lanbed.

Mewn 30 mlynedd a mwy o fyw yma, dyma'r cyfnod gwaetha' erioed o ran y stryd fawr yn nhre' fach bwysica' canol Ceredigion.

Hyd at yn ddiweddar iawn, doedd siopau ddim yn aros yn wag yn hir; hyd yn oed os nad oedd pob busnes yn para'n hir, roedd yna rywun arall yn barod i fentro yn eu lle.

Bellach, fel yng Nghasnewydd, mae yna ganran uchel o siopau'n wag a chwpwl o adeiladau mwya'r Stryd Fawr – y Llew Du, adeilad Williams Bach a Banc y Nat West – yn eu plith.

Dydi hi'n ddim cysur o gwbl deall bod yr un math o beth yn digwydd mewn trefi a dinasoedd eraill; ar wahân i'r wasgfa ariannol gyffredinol, mae yna resymau arbennig pam fod Llambled yn diodde' cymaint.

Un amlwg ydi problemau parcio – nid diffyg lle ond diffyg hwylustod. Petaech chi'n anghyfarwydd â'r dre' ac yn gyrru trwyddi gan feddwl aros am baned a bach o siopa, lle fydddech chi'n rhoi eich car?

Mi fyddai gwasgu rhwng ceir, lorïau a thractorau yn Stryd y Coleg yn ddigon i'ch danto chi i ddechrau ac, wedyn, lle mae'r arwyddion clir i ddangos lle mae parcio i'w gael?

Wrth gwrs, mae yna lai a llai o bethau i dynnu pobol i mewn i'r dre' – swyddfydd llywodraeth wedi mynd, a'r Bwrdd Iechyd, y llysoedd ac ambell i gorff arall hefyd – a bellach does dim rheswm i gwsmeriaid y Nat West alw acw chwaith.

Os ydi pobol yn gweithio yn rhywle arall, maen nhw'n debyg o wneud eu siopa yno hefyd, ar y ffordd adre' efallai.

Y coleg ydi'r ffactor amlwg arall. Mae'n bosib crwydro drwy'r campws bellach heb weld bron yr un enaid byw. Heb y myfyrwyr Tsieineaidd, mi fyddai'n wannach fyth.

Yn ogystal â llai o fyfyrwyr, mae yna lai o staff i fynd i'r dre' i wneud ychydig o wario a llai o rieni'n ymweld i sicrhau bod eu cywion yn ffynnu ac i brynu pryd o fwyd i'w cynnal.

Y cwestiwn ydi, be wnawn ni? Arwydd o ddiffyg democratiaeth go iawn ydi anallu neb i wneud dim. Ers talwm, roedd yna nifer o gyrff a allai fod wedi gweithredu – cyngor sir, falle, asiantaethau datblygu lleol neu hyd yn oed Fwrdd Datblygu.

Bellach, does gan yr un corff lleol yr arian na'r pŵer i fynd i'r afael â phroblemau fel hyn a gweithredu'n gyflym ar raddfa ddigon mawr.

Dro'n ôl, mi ddaeth arbenigwr ar Y Stryd Fawr i Lanbed a gweld gobaith i'r dre' yn ganolfan i siopau arbenigol ym maes gwnïo a chrefftau a phethau felly. Ond mae'r ganolfan gwiltiau ar fin cau a does neb fel petaen nhw'n ystyried ffyrdd o'i chadw. Y freuddwyd fyddai fod pobol leol yn gallu dod ynghyd i grynhoi adnoddau a gweithredu i newid pethau; buddsoddi mewn un neu ddau o bethau a fyddai'n tynnu pobol i mewn. Neu gael cymorth i greu cwmni tref, fel un llwyddiannus sydd yng Nghaernarfon.

Mae gan Lanbed fanteision. Mae yna nifer o fusnesau lleol ardderchog yma o hyd; mae'r coleg yn cynnig adnoddau a allai fod o werth i'r gymdeithas ehangach, gan gynnwys yr Hen Lyfrgell sydd, medden nhw, yn cynnwys llyfrau a ddylai ddenu pobol o bell ac agos.

Ac mae hi mewn ardal lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn dal i siarad Cymraeg; efo'r galw am gynyddu defnydd o'r iaith, does bosib nad oes cryfder yn hynny.

Ac wedyn, ninnau. Mae rhywrai lleol yn archebu bwyd tros y We o archfarchnad yn Nowlais, ger Merthyr, ac o archfarchnadoedd pell eraill. Mae'r faniau i'w gweld yn gyson hyd yr ardal ac yn gwneud y problemau'n waeth i draffig Stryd y Coleg.

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llambled**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llambled



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llambled, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

**AA
A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Dyma gyflwyno a holi dwy o ddysgwyr ardal Llanbed, Anne Orpin a Debbie White.
Ann M: Ble dych chi'ch dwy yn byw?
Anne a Debbie: Dw i'n byw ym Mharec y Rhos a Debbie yng Nghellan.

AM: Ers faint dych chi'n byw yng Nghymru a pham ddaethoch chi yma?
Anne: Symudais i yma ddwy flynedd yn ôl a roedd hi'n antur i fi ar ôl ymddeol o weithio mewn meddygfa yn Suffolk.
Debbie: Symudais i hefyd ddwy flynedd yn ôl o ar bwys Abingdon, ro'n i bob amser mo'yn byw yng



Nghymru ac erbyn hyn dw i'n gweithio fel garddwr a tiwtor ffitrwydd rhan amser.

AM: Ble dych chi'n dysgu Cymraeg?
Anne a Debbie: Dechreuon ni yn yr Ysgol haf yn y coleg yn Llanbed ac yna aethon ni i'r Cwrs Sylfaen Dwys yn Nhregaron gyda Ann M. Mae deg yn y dosbarth a dyn ni'n cael llawer o hwyl wrth ddysgu.

AM: Beth am eich amser sbar?
Debbie: Dw i'n cerdded llawer ac yn helpu i arwain Clwb Cerdded Tregaron.

Anne O: Mae 4 o ddefaid gyda

fi a dw i'n mynd i ddosbarth i ddysgu troelli a gwehyddu gwlân. Dw i hefyd yn canu gyda Côr Clychau'r Fedwen.

AM: Wnaethoch chi gystadlu yn Eisteddfod y Dysgwyr?
Anne a Debbie: Do, roedden ni yn y sgets am y ddwy flynedd diwethaf ac enillon ni ddwy waith. Roedd hi'n hwyl cystadlu gyda'r dosbarth yn yr Eisteddfod a byddwn yn cystadlu ym mhabell y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ar y dydd Iau. Roedd Anne yn y parti canu hefyd ac enillon ni hwnna hefyd eleni.

AM : Diolch i chi a phob hwyl ar y dysgu.
(Cofiwch ymdrechu i siarad â'n dysgwyr; maent yn haeddu cefnogaeth)

Atebion tasg Mis Mehefin

1. Nac ydw
2. Oes
3. Ydyn
4. Nage
5. Oedd
6. Nac ydy
7. Nac ydyn
8. Ydy
9. Nac oedd
10. Ie

Geirfa:
symudais - I moved
cystadlu - to compete
gwehyddu - weaving
enillon ni - we won
troelli- spinning

CLONC CLWB CLONC

Os na wnaethoch gytundeb archeb Banc y llynedd dyma gyfle i chwi wneud eleni. Bydd cael archeb Banc yn arbed llawer o waith i gasglu yr arian yn flynyddol. Llenwch y manylion isod a'i anfon yn ôl i Mrs Mary Davies, Maesglas, Drefach, Llanybydder, Ceredigion. SA40 9YB.

Wrth gwrs os hoffech barhau i dalu â siec neu arian parod mae croeso i chwi wneud hynny o hyd. Llenwch y rhan gyntaf o'r ffurflen a'i hanfon yn ôl gyda'r arian i'r cyfeiriad uchod.

Byddwn yn falch ei dderbyn mewn unrhyw ffordd, er mwyn parhad CLONC.



ENW:

CYFEIRIAD:

CÔD POST: RHIF FFÔN:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i Clonc gyhoeddi'ch enw ac enw'ch pentref petaech yn ennill gwobr.

ARCHEB BANC / STANDING ORDER

I / To [eich banc chwi / to your bank] Banc / Bank

Rhif didoli / Sort Code: Rhif cyfrif: 03451526

Cyfeiriad y Banc / Bank Address:

Taler / Please pay €Nat West, Llanbed 53-61-42

I gyfrif / for the credit of CLWB CLONC Rhif cyfrif: 03451526

Y swm o / the sum of £

I ddechrau ar / commencing 1af o Orffennaf 2018 Ac yn flynyddol wedi hynny ar Orffennaf 1af
1st July 2018 Thereafter annually on 1st July

nes y derbyniwch rybydd pellach gennyf drwy lythyr / until you receive further notice from me in writing.

Enw'r cyfrif i'w ddebydu / Name of account to be debited:

Rhif y cyfrif banc / Account no: Llofnod / Signature:



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,

Wel shw mae? Wel mae'r haul yn wedi bod yn gwenu arnom yn ystod y mis diwethaf a phawb yn hapus braf. Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i fynd i'r traeth i adeiladu cestyll tywod a nofio yn y môr. Ond cofiwch blant pan fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth, mae'n rhaid bod yn ofalus iawn a gwrando ar oedolyn. Cofiwch wisgo eli haul, het a sbectol haul er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych yn llosgi. Rhaid cofio hefyd i beidio mynd yn bell o olwg oedolion. Ond yn bwysicach oll, rhaid cofio i fwynhau yng nghanol y tywod.

Wel cefais lu o luniau drwy'r post a phawb wedi bod yn brysur yn lliwio'n lliwgar a thaclus. Roeddwn wrth fy modd gyda lluniau Osian, Beca, Gwenllian, Ellie, Isobella, Elliw, Cara, Megan, Wil, Steffan, Rhodri, Tom, Aron, Damon, Dafydd, Manon, Charlie, Luca, Hana, Dewi, Arthfael, Alaw a Tomi o Ysgol Dyffryn Cledlyn, Gwennan Owen o Lanllwni a Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos. Ond y llun sy'n dod i'r brig yw un Noa o Ysgol Dyffryn Cledlyn. Da iawn chi a llongyfarchiadau i ti Noa!


Wel dwi'n edrych ymlaen i wyliau'r haf er mwyn mynd am dro i draeth Cei Bach i fola heulo ac adeiladu cestyll tywod. Fyddwch chi'n mynd am dro i'r traeth? Ble mae'ch hoff draeth chi? Wel beth am fynd ati i liwio llun o'r diwrnod ar y traeth a'i ddychwelyd ataf cyn dydd Llun, Awst 20fed.



Enillydd
y mis!

Noa
Potter-
Jones

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:




Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plantyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

O gwmpas yr ysgolion



Enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd Ysgol Y Dderi dros Geredigion a Chenedlaethol. Canlyniadau campus! Yn ogystal, enillwyd y gystadleuaeth creu ap a ddaeth y wefan yn ail.



Aeth pedwar o ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Y Dderi i Norwy am wythnos fel rhan o'n prosiect rhyngwladol, Erasmws. Bu'r plant yn mynychu gwersi gyda'u ffrindiau newydd ac maent wedi elwa o'r holl brofiadau.



Elan a Tomasz o Ysgol Lanllwni yn derbyn Gwobr Efydd y Siarter Iaith. Derbyniwyd y wobr ym Mharc y Sgarlets.

Tudalen Chwaraeon



Yn ddiweddar, bu Dion Teilo, Olmarch, yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Golff Ewropeaidd US KIDS yn East Lothian, Yr Alban.

Chwaraeodd Dion yn andros o dda ar gwr hynod o heriol oedd yn gofyn am gywirdeb ac amynedd. Fe lwyddodd i wella ei sgôr ym mhob rownd o ddeunaw twll gyda 79-73-72 ar gwr oedd yn chwarae pâr 72. Roedd y perfformiadau hyn yn ei roi yn y deg safle cyntaf a hynny yn ail Bencampwriaeth Ieuencid mwyaf y byd. Yn dilyn ei lwyddiant ar lefel Ewropeaidd yn yr Alban, gwahoddwyd iddo gystadlu ym Mhencampwriaeth Golff mwyaf y byd yn Pinehurst, North Carolina, America. Hoffai Dion ddiolch i ffrindiau a theulu sydd wastad yn gefn iddo ac yn barod i'w gefnogi yn ystod o lawenydd a siomedigaethau. Rydym yn browd iawn o lwyddiannau Dion ac yn edmygu ei waith caled a'i ymroddiad llwyr i'r gêm. Llongyfarchiadau mawr i ti Dion.



Llongyfarchiadau mawr i dîm Pêl-droed Dan 11 Llambled am ennill twrnament San Clêr yn ddiweddar.



Tîm bechgyn Carreg Hirfaen yn ennill twrnament Sêr Dewi yn Nhregaron yn ddiweddar.



Hari Jones, blwyddyn 4 Ysgol Carreg Hirfaen sydd wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o dîm pêl droed ysgolion Sir Gâr.



Llongyfarchiadau mawr i dîm Pêl-droed Dan 12 Merched Llambled ar gyrraedd y rownd derfynol yn nhwrnament Tregaron yn ddiweddar.




Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan

yn cyflwyno noson yng nghwmni

CÔR BRO MEIRION



ac enillwyr lleol Eisteddfod yr Urdd 2018



**7:30pm Nos Sadwrn, Medi 22ain, 2018
yn THEATR FELINFACH**

**Oedolion £10
Plant Ysgol £5**

**Tocynnau ar gael o'r theatr:
01570 470697
www.theatrfelinfach.cymru**

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

**Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS**
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Tudalen Chwaraeon



Llongyfarchiadau i Rhian Jones, Melanie Thomas, Carolyn James ac Anwen Butten o Glwb Bowlio Llanbed a fu'n cynrychioli Cymru yng nghystadlaethau y pedwarau yn Belfast, Iwerddon. Fe wnaethon ennill yn erbyn Iwerddon a Jersey a maent nawr yn Bencampwyr Prydain Fawr yn y pedwarau. Hefyd dros y penwythnos fe fu'r pedair ac Alis Butten yn cynrychioli Cymru yn y gemau cartref.



Llongyfarchiadau mawr i Sioned Kersey a enillodd chwaraewraig dan 10 merched yn nhwrmament Tregaron yn ddiweddar.



Brawd a chwaer - Pencampwyr Athletau Cymru 2018

Cafodd Beca ac Osian Roberts benwythnos i'w gofio ym Mhencampwriaeth Athletau Cymru yng Nghasnewydd ar y 23ain a'r 24ain o Fehefin. Ar y dydd Sadwrn, cipiodd Beca'r fedal aur yng nghystadlaethau y naid driphlyg i ferched dan 17 oed, ac yn yr un modd, cipiodd Osian y fedal aur am y naid uchel i fechgyn o dan 13. I goroni'r cyfan, ar y dydd Sul, cyflawnodd Osian y dwbwl, gan gipio medal aur arall, yn ras y clwydi i fechgyn dan 13 oed y tro yma. Mae'r ddau yn aelodau o Glwb Harriers Caerfyrddin ac yn cael eu hyfforddi gan Dorrien Thomas. Llongyfarchiadau mawr iddynt.



Tîm o dan 9 Llanbed a thîm o dan 10 Llanbed wedi ennill twrnament pêl droed Boncath yn ddiweddar. Llongyfarchiadau anferthol i chi.



Llongyfarchiadau i Casi Gresgon, Ysgol Carreg Hirfaen am ddod yn gyntaf yn Ras 100m ym Mhencampwriaeth Ysgolion Cynradd Dyfed yn ddiweddar. Da iawn ti Casi.



Tîm Bl. 5 a 6 Ysgol Bro Pedr yn ennill Twrnament Carreg Hirfaen.



Tîm merched Carreg Hirfaen yn ennill twrnament Sêr Dewi yn nhwrmament Tregaron.

Os hoffech
gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr
gyda'r gwaith o
gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi
gysylltu ag un o'r
bwrdd busnes.